

Llais Ogwan


Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 507 • Chwefror 2020 • 50c

Tirwedd Llechi Cymru

Gallai Tirwedd Llechi gogledd-orllewin Cymru fod y Safle Treftadaeth y Byd nesaf y DU. Dyma a gyhoeddwyd gan Weinidog Treftadaeth Llywodraeth San Steffan, Helen Whately wrth iddi gyflwyno'r enwebiad ffurfol i UNESCO. Os caiff ei dderbyn, bydd y dirwedd yn ennill ei lle fel rhif 33 o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yn y DU.

Daeth y dirwedd - sy'n cynnwys Chwarel Lechi Penrhyn, tref Bethesda, a Dyffryn Ogwen i lawr i Borth Penrhyn, ac yn ymestyn ledled sir Gwynedd - yn arweinydd y byd ar gyfer cynhyrchu ac allforio llechi yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif. Erbyn yr 1890au 'roedd diwydiant llechi Cymru yn cyflogi tua 17,000 o bobl ac yn cynhyrchu 485,000 tonnelli o lechi'r flwyddyn. Cafodd y diwydiant effaith enfawr ar bensaernïaeth fyd-eang,



LLUN gan Dafydd Fôn Williams

gyda llechi Cymreig yn cael eu defnyddio ar nifer o adeiladau, terasau a phalasau ledled y byd, gan gynnwys Neuadd San Steffan, Adeilad yr Arddangosfa Frenhinol, Melbourne, Awstralia a Neuadd Dinas Copenhagen, Denmarc.

Disgrifir yr ardal fel un sydd wedi 'rhoi to ar fyd y 19eg ganrif' ac mae'r llechen o'r chwareli yn parhau i gael dylanwad ar bensaernïaeth ledled y byd.

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor

Gwynedd dros Ddatblygu'r Economi: "Rwy'n credu y bydd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod angen mwy o ddealltwriaeth o arwyddocâd diwydiant llechi Cymru a'i rôl, wrth lunio ein cymunedau, ein hiaith a'n diwylliant."

Bydd y safle 'rwan yn cael ei ystyried gan Gyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd dros y flwyddyn nesaf, cyn cael ei ystyried i'w gadarnhau yng nghyfarfod Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn 2021.

Am ragor o wybodaeth am y cais neu brosiect LleCHI, ewch i www.llechi.cymru neu ddilyn y diweddaraf ar y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol:

Twitter @LlechiCymru;

Facebook

@LlechiCymruWalesSlate;

Instagram

@LlechiCymruWalesSlate

Llanast Llan: Panto Llechen Las

Am y bedwaredd flwyddyn llwyddodd Cwmni Drama'r Llechen Las i lenwi Neuadd Ogwen ddwywaith, sef nos Wener Ionawr 16eg a'r pnawn Sadwrn canlynol. Nid gwaith hawdd yw llenwi neuaddau yn y dyddiau sydd ohoni! Ond gyda thri panto poblogaidd iawn y tu cefn iddynt 'does ryfedd bod y gynulleidfa wedi troi allan am wledd arall. A dyna a gafwyd.

Gyda sgriptio a chyfarwyddo medrus Gaynor Elis Williams a Marian Jones, cawsom ein tywys o'r Neuadd i leoliadau ym Methesda a Llanllechid, i Alton Towers, Pipistan a hyd yn oed i blaned arall. Y digwyddiad a gynhyrfodd yr ardal oedd bod Phylis a Heath oedd ar drip yn Alton Towers wedi cael eu hyrddio i'r gofod o

seddau ei reid yn Alton Towers gan lanio ar ryw blaned bellennig. Wrth gwrs sefydlwyd pwyllgor o bwysigion y pentref yn syth a chychwynwyd ymgyrch codi arian i gael y ddau yn ôl. Yn sgîl hyn ymddangosodd dwy roced, a chawsom gyfarfod â nifer o gymeriadau megis Y Tad Cled a Mrs Boyle, Berwyn Boncers, Tomi Twp, Pwtyn a Pwtan, sbeis a bowsars, mulod a Saim -on Cawl, ac wrth gwrs Y Bingo Wings.

Cawsom ein harwain o Fethesda i Bipistan, o weithdy Berwyn Boncers i'r ystafell bwyllgora ac o'r mans i briodas mulod! Swnio yr un mor boncyrs â Berwyn ac yn lot fawr o hwyl. Daeth yr uchafbwynt pan oedd râs rhwng roced goch Pesda a roced las Pipistan. 'Roedd Beti Rhys

yn gallu gosod y tempo yn berffaith gyda'r gerddoriaeth ac yn cyfeilio i bawb, gan fedru gwneud hynny hyd yn oed i Pwtan! 'Roedd ymateb y gynulleidfa yn wych a phawb yn cael hwyl fawr.

Nôd panto ydy diddanu a dyna yn amlwg a wnaeth Llechen Las eto eleni gyda chynhyrchiad oedd yn adnabod y gynulleidfa, gyda llawer o'r cynnwys yn unigryw i'n hardal ni. Braff oedd gweld wynebnewydd hefyd ymhlith y cast, heb anghofio am y tîm technoleg, gwniadwraig a phawb oedd yn gweithio y tu ôl i'r llenni fel petae.

Llongyfarchiadau unwaith eto Llechen Las a hir y parhewch i ddiddanu ein Dyffryn.



Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
☎ 07867 536102
carwynnian@hotmail.com

Swyddogion

CADEIRYDD:

Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Walter a Menai Williams.

Y golygydd ym mis Mawrth fydd
Neville Hughes,
Bryn Ffrydlas, 14 Ffordd Pant,
Bethesda, LL57 3PA.
01248 600853
E-bost: nev_hughes@btinternet.com

**PWYSIG; TREFN NEWYDD
O RIFYN IONAWR YM LAEN GOFYNNIR
I'R DEUNYDD GYRRAEDD Y GOLYGYDD
5 DIWRNOD YN GYNT NA'R ARFER.**

Pob deunydd i law erbyn
dydd Sadwrn, 29 Chwefror
os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **nos Iau, 19 Mawrth**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o'r gloch
a hanner dydd.



Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Chwefror

- | | |
|--------------|---|
| £30.00 (36) | Marian Humphreys,
Stryd Cefnfaes, Bethesda. |
| £20.00 (101) | Bethan Griffiths, Bro Emrys,
Talybont. |
| £10.00 (84) | Christina Roberts, Maes y
Garnedd, Bethesda. |
| £5.00 (23) | Selwyn Owen, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda. |

(Os am ymuno, cysylltwch â
Neville Hughes – 600853)

Dyddiadur
y Dyffryn

Chwefror

- | | |
|----|--|
| 24 | Te Bach. Ffestri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00. |
| 25 | Te Crempog. Eglwys Y Santes Fair,
Tregarth am 2.00. |
| 25 | Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.00. |
| 29 | Dathlu Ymgyrch Enwau Caeau D. Ogwen.
Neuadd Ogwen. 9.30 – 2.00. |

Mawrth

- | | |
|----|---|
| 02 | Merched y Wawr Tregarth.
Dathlu Gŵyl Ddewi. |
| 04 | Clwb Camera Dyffryn Ogwen. Cefnfaes.
7.15 – 9.30. |
| 05 | Sefydliad y Merched Carneddi. Dathlu
Gŵyl Ddewi. Cefnfaes am 7.00. |
| 07 | Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 – 12.00. |
| 09 | Cymd. Hanes D. Ogwen. Ieuan Wyn.
Ffestri Jerusalem am 7.00. |
| 12 | Cymdeithas Jerusalem.
'Helen W. Williams'. Ffestri am 7.00. |
| 14 | Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.00. |
| 14 | Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes.
10.00 – 12.00. |
| 19 | Noson gasglu a dosbarthu'r Llais.
Cefnfaes am 6.45. |
| 21 | Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00. |

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub
Barbwr Ogwen, Bethesda

Bangor

Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon Siop Richards

Porthaethwy Awen Menai

Rhiwlas Garej Beran

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn
yn swyddfa'r deillion, Bangor

01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth
â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r
Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r
canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Rhoddion i'r Llais

- £50 Cyngor Llanddeiniolen.
- £10 Er cof am David Michael Phillips, Penrhosgarnedd, oddi wrth y teulu.
- £4.50 Annwen Hughes, Bryn Caseg, Bethesda.
- £5 Meirion Jones, 41 Abercaseg, Bethesda.
- £7 Norma Griffiths, 46 Abercaseg, Bethesda.
- £8 Don Hughes, Halifax.
- £28 Jennie Jones, 11 Bryn Caseg, Bethesda.
- £4.50 Marilyn Jones, 1 Glan Ffrydlas, Bethesda.
- £20 Er cof annwyl am Mrs. Eirlys Roberts, Cilfodan, a fu farw 2 Chwefror 2016, oddi wrth ei phriod, Vic a'r teulu.
- £30 Er cof am y diweddar Mr. John Owen Roberts, Penybryn, oddi wrth y teulu.

Diolch yn fawr.

L. Sturrs
a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Ddathlu Ymgyrch
Enwau Caeau
Dyffryn Ogwen

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn estyn croeso i ddarlennwyr Llais Ogwan i ddod i Neuadd Ogwen ar fore Sadwrn, Chwefror 29ain, i ddathlu llwyddiant y gymdeithas yn casglu enwau caeau yr ardal. Cyfarfod anffurfiol fydd hwn, i arddangos ffrwyth y llafur ac i drafod ei ganlyniadau. Trafodir yn y rhan gyntaf sut y cofnodwyd yr enwau ar lein, a bydd cyfle i'r rhai a gyfrannodd holi a gweld sut mae eu cyfraniad hwy yn plethu i'r darlun cyfan. Bydd cyfle yn ogystal i gywiro ac i ychwanegu enwau newydd i'r gofnod. Yn ail hanner y cyfarfod, wedi cael paned, cacen a sgwrs, bydd cyfraniadau byr yn trafod rhai o enwau caeau mwyaf diddorol yr ardal. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb ddod i'r cyfarfod - ni fydd tâl mynediad, a bydd y baned am ddim yn ogystal! Dowch yn llu - yn arbennig chwi ffermwyr caredig y dyffryn. Wele raglen lawn y cyfarfod:


Lleoliad: Neuadd Ogwen, Bethesda,
Chwefror 29, 2020
Amser - 9.30 y bore tan 2.00 y prynhawn

Rhaglen Sesiwn 1 – 9.30 > 11.00

9.30 - Croesawu – Rhian
9.45 > 11.00 - Sesiwn dan ofal Rhian Parry ac Ifor Williams
Cyflwyniad a Chefndir i'r prosiect - Sesiwn gyfrifiadurol ar y sgrin fawr i ddangos enwau caeau Llanllechid/ Llandygai/ Pentir/ Glasinfryn.
11.00 > 11.30 - Hoe fach i gael sgwrs a phaned.

Rhaglen Sesiwn 2 –

Sesiwn dan ofal Hywel Wyn Owen
11.30 > 11.45 – Ieuan Wyn - Waun Fflogun, Gwern Gof Isa, Nant y Benglog.
11.45 > 12.00 – Huw John Hughes – Bryniau Gwyddelod, Mynydd Llandygai.
12.00 > 12.15 – Thelma Morris – Cae'r Dentur Bach, Pandy, Tregarth.
12.15 > 12.30 – Cynrig Hughes – Cae Masant Llwyd, Pentir.
12.30 > 12.45 – Gwynfor Ellis – Cae'r Ffens Lechi, Glanymor.
12.45 > 1.00 – John Ll. Williams – Buarth y Garnedd, Cae Gwilym Ddu, Ty'n Hendra.
1.00 > 1.30 – Holi, Ateb a Diolch – dan ofal Hywel Wyn Owen, Ifor Williams a Rhian Parry
Clirio i fynd ac yn y blaen 1.30 i 2.00



Sgwariau Teisen Berffro
(shortbread) a Minsmit

Cynhwysion

- 250g o fenyn (dim yn rhy oer).
- 100g o siwgrwr mân (caster).
- 1 llwy de o sudd fanila.
- 1 llwy de o sinamon.
- 250g o flawd plaen.
- 140g o bowdr reis.
- 250g – jar o finsmit da.
- (*2 lwy fawr o siwgrwr (i'w roi arnynt ar ôl eu tynnu o'r popty).



Dull

- Rhowch y popty ar 150/160 ffan; nwy 4.
- Leiniwch dun sgwâr 20x20cm.
- Curwch y menyn, y siwgrwr, y fanila a'r sinamon efo curwr trydan tan fydd y cwbl yn ysgafn.
- Rhowch y blawd a'r reis i mewn a'i droi efo llwy yn gyntaf, ac wedyn ei gymysgu'n dda efo llaw nes y bydd fel toes.
- Rhannwch y 'toes' yn ddau, a rhoi un hanner ar waelod y tun (ar ôl ei rowlio).
- Lledaenwch y minsmit yn gyfartal dros y 'toes'.
- Wedyn, rowlio'r hanner arall rhwng dau ddarn o bapur gwrthsaim i fesur 20x20cm.
- Rhowch o dros y minsmit yn ofalus, ac efo'ch bysedd, seliwch o yn dynn i'r tun.
- Gwnewch dyllau mân yn ei wyneb efo fforc.
- Ei bobi yn y popty am 25-30 munud.
- Cymysgwch ¼ llwy de o sinamon efo'r *ddwy lwy fawr o'r siwgrwr (bras) a'i ledaenu dros y deisen.
- Gadewch iddo oeri yn y tun cyn ei dorri'n sgwariau.

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Eglwys Crist, Glanogwen
Gwasanaethau
Pob Bore Sul:
Cymun Bendigaidd Corawl am 11yb
Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.
Anfonwn ein cofion cynnes at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i'w cartrefi. Cofiwch gysylltu â Glenys Morgan (600371) neu Barbara Owen (600530) os am gael Cymun Cartref.

Mynwent Coetmor
Gyda tymor blodau Sul y Fam a'r Pasg yn nesau, atgoffir pawb yn garedig i roi unrhyw fagiau plastig yn y bin gwyrrdd (neu fynd â nhw adref), fel nad oes ond blodau a dail yn y bin brown. Diolch yn fawr i'r rhai sydd yn tacluso o gwmpas y biniau – gwerthfawrogi yn fawr unrhyw help.
Os oes gennych amser ac awydd i ddod i helpu tacluso'r drain a'r mieri o amgylch y fynwent, cysylltwch â'r rhifau uchod i drefnu dod ynghyd. Diolch yn fawr.

Pen-blwydd Arbennig
Dathlodd dwy o drigolion Bethesda ben-blwyddi arbennig yn ystod mis Ionawr. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt, sef Mrs. Norma Griffiths, Abercaseg a Mrs. Anne Williams, Sgwâr Buddug.

Diolch
Dymuna Norma Griffiths, 46 Abercaseg, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed ar 3 Ionawr.



Bore Coffi Arbennig
Yng Nghefnfaes, ar fore Sadwrn, 18 Ionawr, cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus dros ben er cof am Vernon Owen, Abercaseg. Gwnaed elw o £595.50, ac mae'r teulu yn dymuno diolch i bawb am eu cefnogaeth drwy helpu ar y bore a chyfrannu gwobrau lu i'r raffl, yn ogystal â nwyddau o bob math ar gyfer y bwrdd gwerthu. Diolch yn fawr iawn.
Yn y llun fe welir Katie, disgybl yn Ysgol Pendalar, ac wyres i Vernon, yn cyflwyno'r elw i gronfa diffibriliwr ei hysgol yng Nghaernarfon fore Llun, 20 Ionawr.

Cartref Newydd
Croeso cynnes iawn i Michael, Laura, Shaun a Dafydd i'w cartref newydd yn Garneddwen.

Taid a Nain
Llongyfarchiadau i Richard a Beryl Williams, Maes y Garnedd, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain i efeilliaid.

Ysbyty
Yn ystod y mis a aeth heibio bu sawl un yn yr ysbyty. Da deall fod rhai wedi dod gartref ac yn gwella. Cofion cynnes atoch i gyd, sef Mr. Alan Puw, Cefn y Bryn; Mrs. Susan Evans, Abercaseg; Mrs. Margaret R. Williams, Rhos y

Coed; Mrs. Anne Williams, Sgwâr Buddug; Mrs. Karen Roberts, Llain, Carneddi; Mrs. Sheila Owen, Stryd Cefnfaes; Mr. Alan Parry, Glanogwen.

Marw
Ar 16 Ionawr yn ei chartref, Tryfan, Ffordd Coetmor, bu farw Mrs. Marion Joy Davies yn 86 mlwydd oed. Priod annwyl Llew, mam hoffus i David, Susan a Paula, a nain i Gareth a Matthew. Cynhaliwyd gwasanaeth ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, ddydd Iau, 30 Ionawr, o dan arweiniad y Parchedig Ddr. Hugh John Hughes. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mr. Michael Williams, Y Trallwng, a fu farw yn Ysbyty Amwythig ar 23 Ionawr. 'Roedd yn dad i Leigh a Ruth ac yn daid i Miriam, Sion a Megan. Bu Mike yn rhedeg Tafarn y Tarw ym Methesda am sawl blwyddyn.

Athletwraig
Braf yw cael cyhoeddi bod Ela Oliver, Capel Cwta, wedi dod yn ail yn y ras 200 metr o dan 17 oed Pencampwriaethau Athletau Dan Do Ieuencid Cymru, ac ar ben hynny wedi ennill medal arian arall yn y ras 60 metr – yn honno 'roedd yn rhaid cael camera i benderfynu pwy oedd yn fuddugol!
Llongyfarchiadau mawr i ti Ela, a phob dymuniad da i'r dyfodol!

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Diolch
Dymuna Mrs Nita Jones, 53, Braichmelyn, ddiolch o waelod calon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Newyddion
Os oes gennych newyddion i'r 'Llais', a fuasech mor garedig â chysylltu â'r gohebydd, os gwelwch yn dda? Diolch.



Arwyddion Glân
Os ydych wedi sylwi bod ambell i arwydd ffordd yn yr ardal yn lanach ac i'w weld yn gliriach yn ddiweddar yma, yna mae'r diolch i Dylan Edwards, Carneddi. Wrth deithio'r fro gyda'i fusnes glanhau ffenestri Ffenestri Sgwâr, sylwodd Dylan nad oedd yr arwyddion i'w gweld yn rhyw eglur iawn. Ac yntau efo offer glanhau yn y fan penderfynodd roi gwasanaeth am ddim i'r ardal ac aeth ati i'w golchi. Diolch, Dylan, am y gymwynas hon.

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Yr Eglwys Unedig

Croeso

Hyfryd yw cael croesawu Mrs Nerys Griffiths, Caernarfon, i gynorthwyo gyda'n dyletswyddau fel eglwys. Mae Mrs Griffiths, sydd yn ymgeisydd am y weinidogaeth, wedi'i phenodi'n swyddog gweinidogaeth fugeiliol, a bydd yn ymweld yn gyson â'r aelodau sydd yn methu bod gyda ni yn yr oedfaon oherwydd cyflwr bregus ac anhwylder. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi.

Plygain

Cynhaliwyd Gwasanaeth Plygain bendithiol dros ben ym mis Ionawr, gyda chynulleidfia deilwng iawn wedi dod ynghyd. Mae ein diolch yn fawr i'r rhai a fu'n cymryd rhan, ac yn arbennig i Ceri am drefnu'r cyfan. Bydd y casgliad o £85 yn mynd at achos lleol.

Yr Ysgol Sul

Mae'r plant wedi dychwelyd ar ôl y gwyliu, a phleser yw cael eu cwmni ar fore Sul unwaith eto. Diolch yn fawr i'r athrawon am

eu brwdfrydedd ac ymroddiad. Thema'r tymor hwn yw 'Dŵr', gyda'r pwyslais ar helpu'r gwledydd rheiny sydd yn dioddef o'i ddiffyg. Mae croeso cynnes iawn i unrhyw blentyn ymuno â ni am 10 o'r gloch – mae hwy!, ac addysg yr un pryd, yn eich disgwyl!

Y Gymdeithas

Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Hogia'r Bonc ym mis Ionawr – hyfryd oedd cael cyd-ganu â hwy mewn ambell i gân. Ym mis Chwefror (13eg) disgwyliwn Mr Thomas Hughes i sôn am ei waith gydag 'Ymateb Cyntaf' (First Response), ac yna, nos Iau, Mawrth 12fed, Bydd Mrs Helen Williams a 'Dwylo Prysur', o gapel Carmel, yn dod i'n difyr. Cynhelir y cyfarfodydd yn y Ffestri Fach am 7 o'r gloch – croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Doris Shaw, yn

ei phrofedigaeth o golli'i gŵr yn ddiweddar. Cofion atoch fel teulu.

Gwaeledd

Yn ôl ein harfer, 'rydym yn anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau at yr aelodau hynny sydd, oherwydd gwaeledd neu lesgeidd, yn methu bod gyda ni yn ein hoedfaon – mae'n chwith amdanoch.

Sbwriel

Unwaith eto, rhaid tynnu sylw at y sbwriel sydd yn ymddangos yng ngardd y capel o hyd ac o hyd. Mae ein swyddogion yn gorfod clirio'r ardd bob bore Sul, ac mae ein pryder yn dwysáu o ganfod blychau bach nwy ymysg y caniau alcohol, pcedi polystyren ac ati. Mae'r heddlu bellach yn gwybod am y datblygiad peryglus hwn, ac erfyniwn ar i rieni rybuddio'u plant a'u pobl ifainc, a cheisio sicrhau eu bod yn gwybod ble y maent ar fin nosau, a beth y maent yn ei wneud. Sefyllfa hynod o drist yn wir.

Llenwi'r Cwpan

Cofiwch am y croeso sydd yn eich disgwyl bob bore Iau – mae'r baned yn dda, a'r sgwrs yn ddifyr!

Cydymdeimlad

Unwaith eto, rhaid cofnodi colled fawr i ni fel Eglwys, gyda marwolaeth Mrs Glenys Lloyd Jones, Glanffrydlas. Bu Glenys yn aelod hynod o ffyddlon, ac yn flaenor ymroddedig yn Jerusalem, a'r Gerlan cyn hynny, am flynyddoedd lawer, hyd nes i afiechyd creulon ei llethu. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei meibion, Euryl a Gerwyn, ei chwaer, Marian, ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Vera Morgan, a'r teulu i gyd.

Cyhoeddiadau'r Sul

- Chwefror
- 23: Y Canon Idris Thomas (10)
Y Parchedig J Lewis Jones (5)
- Mawrth
- 1: Y Parchedig Geraint Roberts (10 a 5)
8: Mr Edward Morris Jones (10 a 5)
15 Y Parchedig Brian Wright (10 a 5)
22: Mr Richard Morris Jones (10 a 5)
29: Mr Aled Job (10)
Mr Dafydd Iwan (5)

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



UNIPART CAR CARE CENTRE

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com





Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen



Sian Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



CHWILAIR

DEUDDEG PETH YN Y CARTREF

A	W	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U
I	A	S	V	A	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	S	U	Z
M	T	X	V	N	C	A	N	D	R	E	W	J	O	H	N	A	Y	D	D
S	K	L	N	T	A	H	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	E	Y	Q
E	I	E	R	H	Z	G	A	R	H	C	U	M	W	N	O	S	R	Y	R
I	N	W	I	O	A	S	Z	R	U	T	F	D	X	U	M	P	H	W	R
V	W	I	H	N	W	C	Q	H	L	W	E	H	O	A	Y	E	P	E	E
A	I	S	G	Y	E	L	O	M	H	E	E	P	I	T	C	T	M	C	B
D	L	B	B	C	C	U	A	U	J	P	S	L	L	R	T	M	U	I	V
S	L	A	V	R	D	C	B	N	B	F	L	G	A	R	F	O	H	G	J
R	I	Y	V	O	I	I	R	R	D	I	X	E	R	I	M	H	Y	T	T
E	A	L	T	C	O	S	K	O	W	M	P	P	W	E	R	C	E	O	M
D	M	Y	K	K	C	B	O	M	R	Y	E	C	X	V	E	R	R	L	Y
N	S	H	S	E	T	M	Y	R	R	E	F	Y	Y	J	D	N	H	L	Z
U	H	B	C	T	W	L	O	A	S	C	R	A	R	I	X	N	P	E	I
A	L	X	J	T	I	J	H	M	B	W	T	E	X	I	M	D	M	B	X
S	K	F	U	W	P	C	C	Q	Y	O	I	L	F	E	C	R	U	H	Z
Q	R	O	G	C	A	T	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	K	H	G	A
J	K	J	C	Z	B	A	R	R	Y	M	O	R	G	A	N	L	N	U	L
R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	H	S

Yn y chwilair mis yma mae DEUDDEG PETH YN Y CARTREF i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn CHWEFROR 26. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Daeth atebion Myfanwy Jones, Gaerwen, a Mrs Gwen Davies, Tanysgrafell, ddiwrnod yn hwyr trwy'r blwch post y mis diwethaf, ac roeddwn wedi anfon y deunydd ymlaen i'r golygydd. Y mis yma mae angen i chwi ddarganfod pethau sydd yn cael eu defnyddio o gwmpas y cartref. **Dyma atebion lonawr:** Arthur Balfour; David Cameron; David Lloyd George; Edward Heath; Harold Wilson; John Major; Margaret

Thatcher; Neville Chamberlain; Robert Peel; Stanley Baldwin; William Pitt; Winston Churchill.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir: Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Alwyn Rowlands, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Ifan Jones, Talybont; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Helen Wyn Jones, Erw Las; Mrs G. L. Jones, Windsor Berks; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Myfanwy Jones, Gaerwen; Arfon Thomas, Glasinfryn; Carys Parry, Glanogwen; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rhiannon Hughes, Llanfairfechan; John a Meirwen Hughes, Abergele; Gwenda Bowen, Gerlan; Shaun Osian Hughes, Bethesda; Alan Davies, Sir Fôn; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Marilyn Jones, Glanffrydlas. **Enillydd lonawr oedd:** Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon, LL54 7HN

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Cronfa Macmillan

Yn ystod cyfnod y Nadolig estynnodd Linda wahoddiad i'w chartref, lle 'roedd wedi paratoi lluniaeth i'w chymdogion gyda'r bwriad o godi arian tuag at Gronfa Macmillan. Bu i Linda, gyda chymorth Michelle, godi £400 tuag at yr elusen bwysig yma. Hoffai Linda ddiolch i bawb fu'n cyfrannu'n ariannol neu drwy baratoi bwyd ar gyfer y diwrnod.

Llyffantod a brogaod

Mae'r ymfudo blynyddol o gyfeiriad Rhyd-y-Groes wedi cychwyn yn barod eleni, a bydd rhai cannoedd o lyffantod a brogaod yn teithio ar hyd Lôn Rallt - pellter o 400 llath a mwy.

Yn ystod y cyfnod yma bydd criw brwdfrydig o dan arweiniad Iwan yn monitro'r ymfudo'n ofalus. Byddant yn casglu'r rhai hynny sydd mewn perygl o gael eu gwasgu o dan olwynion ceir ac yn coladu data ar gyfer cyfrannu at waith ymchwil a wneir gan Brifysgol Bangor.

Amser cychwyn ymarfer!

Mae Ras Hwyl Pentir yn rhan o galendr yr ardal ers pedair blynedd bellach, ac mae'n amser i chi gychwyn ymarfer ar gyfer y nesaf. Bydd y ras yn digwydd ar nos Fawrth, 7fed Gorffennaf am 7.00pm. Cyhoeddir mwy o fanylion yn ystod y misoedd nesaf.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhos Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Neges Dyfodol i'r Iaith ar Ddechrau Degawd

Yn ddiweddar, clywsom gan ymchwilwyr o Seland Newydd fod dyfodol y Gymraeg yn ddiogel, ac yn wir, y bydd 74% o'n poblogaeth yn ei siarad erbyn 2300. Newyddion gwych, a'r datganiad hwn a gipiodd y penawdau, gan ein bod ni i gyd angen ychydig o newyddion da ar ddechrau degawd ansicr.

Ond, yr oedd amod allweddol ynghlwm â'r newyddion da, gan i'r ymchwili hefyd ddatgan mai "bregus" fydd statws y Gymraeg dros y 50 – 100 mlynedd nesaf. Ar lawr gwlad, gwyddom ei bod yn gyfnod tyngedfennol, a gwyddom yn iawn fod rhwystrau fyrdd i oroesiad yr iaith. Os na allwn eu gorchfygu ar fyrder, waeth i ni anghofio edrych ymlaen at y canrifoedd i ddod!

Mae'r Llywodraeth eisoes, wrth gwrs, wedi gosod nod o gynnydd – miliwn o siaradwr y Gymraeg erbyn 2050, a'n dyletswydd ni yw sicrhau ei bod yn ymrwymo i'r trywydd gorau er mwyn cyflawni hyn.

Mae creu mwy o siaradwyr Cymraeg yn galw am fwy o ddefnydd o'r Gymraeg, a mwy o awydd a chyfleoedd i'w siarad a'i dysgu. Nid ar sail un polisi na deddf mae cyflawni hyn, ond yn hytrach drwy gynllun strategol cynhwysfawr, sy'n cyfuno gweithgaredd holl adrannau'r Llywodraeth, cyfraniad y sector gyhoeddus ehangach, mewnbwn arbenigwyr iaith, a'n hymrwymiad ninnau (yn unigolion a chymunedau).

Mae gennym ni i gyd syniad o beth sydd ei angen, a byddem ni i gyd yn cytuno fod myrdd o bethau i'w hystyried os ydym am

adfer y Gymraeg. Cymwrwn Addysg fel enghraifft amlwg. Os ydym am sicrhau addysg Gymraeg, yna mae'n rhaid cael mwy o athrawon sy'n gallu dysgu holl bynciau'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy'r holl gyfundrefn addysg. Mae angen mwy o ysgolion Cymraeg, wrth gwrs, ond rhaid cofio pwysigrwydd addysg blynnyddoedd cynnar, a chyfraniad yr aelwyd fel sylfaen. Bydd angen cefnogi addysg Gynradd Cymraeg gydag addysg Uwchradd Gymraeg, a chyfleoedd i ddisgyblion siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol. O ddilyn y llinyn amser y tu hwnt i'r ysgol, rhaid ystyried cyfleoedd addysg bellach ac uwch, ac yna faint o fri a roddir i'r Gymraeg yn y gweithle.

Un maes ydi hwn, ac fe welwn yn barod y lefel a'r ehangder o ymrwymiad ac ymdrech sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Yn yr un modd, rhaid edrych ar y gymuned, a'r holl bethau sydd eu hangen i Gymreigio ein bywydau o ddydd-i-ddydd, ein horiau hamdden a'r cyfleoedd i gymdeithasu. Ychwaneger at hyn hanfod economi sy'n cefnogi'r Gymraeg a chynnig anogaeth a modd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau. Gellir ychwanegu at hyn oll yr angen am bolisiâu tai a chynllunio sy'n hybu yn hytrach na llethu'r Gymraeg.

Nid yw'n amhosibl cyfuno'r holl elfennau hyn, na sicrhau fod pawb yn gweithio i'r un perwyl. Yn anffodus, yr hyn sydd ar goll yng Nghymru yw strwythur rheoli fyddai'n

caniatáu a hwyluso'r math o waith integredig dwys sydd ei angen mewn cyfnod mor allweddol i hanes y Gymraeg.

O fewn y Llywodraeth, mae'r cyfrifoldeb am yr iaith yn gorwedd gydag Is-adran y Gymraeg. Lleolir yr Is-adran yng nghrombil y gwasanaeth sifil, yn rhan o gadwyn faith o atebolrwydd, sy'n rhoi'r Gymraeg mewn sefyllfa anobeithiol o israddol o safbwynt sicrhau ymrwymiad a chyfraniad hanfodol yr adrannau eraill i adfywiad y Gymraeg.

Yn amlwg, rhaid wrth strwythur cryfach, un sy'n gallu rhoi arweiniad cadarn i'r gwaith ac sy'n gymwys i gydlynw'r holl arbenigedd sy'n bodoli'n barod, er mwyn gweithredu'n gynhwysfawr a di-fwlch ar draws y nifer o amryfal feysydd sy'n berthnasol i lwyddiant y Gymraeg. Gall hyn olygu sefydlu Asiantaeth neu gryfhau statws Is-Adran y Gymraeg, ond beth bynnag fyddo fwyaf ymarferol, y flaenoriaeth yw sicrhau corff grymus y mae pawb yn ei adnabod a'i barchu.

Mae angen gosod sylfaen newydd ar fyrder, gan mai tameidiog a di-ffocws fydd unrhyw gynnydd dan y drefn gyfredol. Rhaid cael sail a strwythur i roi'r holl uchelgais ac ewyllys da ar waith. Heb hyn, ni allwn gymryd ymchwilwyr Seland Newydd ar eu gair ac edrych ymlaen at oes euraidd i'n hiaith – bydd angen ymdrech arwrol dros y blynyddoedd a'r degawdau nesaf.

Os ydych yn cytuno â ni, neu am wybod
mwy, byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

Dechrau adeiladu llain aml bwrpas ym Mhlas Ffrancon

Yn dilyn ymgyrch gan y
Cynghorydd Rheinallt Puw,
aelodau o Ward Ogwen a'r
gymuned leol, mae'r gwaith
wedi dechrau ar adeiladu llain
chwaraeon aml-bwrpas ym
Mhlas Ffranon. Gobeithir y bydd
yn barod erbyn dechrau Mawrth.

Dywedodd y Cynghorydd Puw:
 "Rwyf wrth fy modd bod hyn i
 gyd yn digwydd. Nid yw'r llain
 chwaraeon sydd yno ar hyn o
 bryd wedi cael ei ddefnyddio
 ers rhai blynnyddoedd bellach,
 oherwydd ansawdd gwael, a
 diffygion yn y gwaith ffosydd.



gyda'r canlyniad nad oedd yr
wyneb yn ddiogel i'w ddefnyddio,
a phobl leol yn gorfod defnyddio
safleoedd ym Mangor a thu hwnt
er mwyn chwarae gemau megis
pel-droed a hoci.

Mae'n newydd arbennig o dda i ni yma yn y Dyffryn, gan fod cadw'n heini ac iach yn bwysig i ni i gyd, ac wrth gwrs, mae lleihau'r angen i deithio i safleoedd eraill yn newydd da hefyd i'r amgylchedd."

Edrychwn ymlaen i weld y
safle yn agored i'r cyhoedd.

Bydd y cae ar gael ar gyfer defnydd disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn ystod y dydd ac yna i'r gymuned ehangach a chlybiau chwaraeon ei logi gyda'r nos ac ar benwythnosau. Bydd yn addas ar gyfer gemau a hyfforddiant pêl droed a hoci a bydd modd i chwaraeon eraill, megis rygbi, ei ddefnyddio ar gyfer sesiynau ffitrwydd a sgiliau.

I logi'r cae chwarae cysylltwch
â derbynfa Byw'n lach, Plas
Ffrancon neu alw rhif ffôn 01248
601515

JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Ysgol Abercaseg

Bwyd Traddodiadol Tseiniaidd

Cafwyd diwrnod o fwynhau dathlu'r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd. Coginiodd Anti Marian fwyd traddodiadol tseiniaidd - diolch yn fawr iddi hi a holl staff y gegin am eu gwaith caled.



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Flwyddyn 1 a 2 ar dderbyn eu tystysgrifau yn dilyn yr hyfforddiant 'Kerbcraft' dros yr wythnosau diwethaf. 'Roedd y plant wrth eu boddau gyda'u bagiau llachar a'u medalau arbennig! Maent wedi bod yn gweithio'n galed dros yr wythnosau diwethaf yn dysgu nifer o sgiliau hanfodol er mwyn gallu croesi'r ffyrdd mewn modd diogel. Diolch yn fawr iawn i'r holl staff fu



wrthi'n eu hyfforddi mor dda. Mae'r plant wedi mwynhau'n arw.

Croeso

Yn dilyn ymddeolaid Mrs Ceren Lloyd, estynwn groeso cynnes iawn i Miss Eirian Madine, sef ein Pennaeth mewn Gofal tan y Pasg. Mae Miss Madine wedi setlo'n dda, ac edrychwn ymlaen i gyd-weithio ymhellach. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ystod eich cyfnod gyda ni yn Ysgol Abercaseg.

Clwb Creadigol

Braf yw gweld cynifer o blant blwyddyn1 a 2 yn mynychu'r clwb Creadigol ar brynhawn Mercher. Mae'r plant wrth eu boddau yn cael cyfleoedd i ddawnsio, canu a gwneud gwaith celf, ac 'rydym i gyd yn edrych ymlaen yn arw at y cyfarfod olaf, pryd y caiff y rhieni gyfle i weld yr holl bethau diddorol y mae'r plant wedi'u gwneud.

Disgo Santes Dwynwen

Dathlwyd diwrnod Santes Dwynwen gyda disgo yn neuadd yr ysgol. Cafodd bawb hwyl yn canu, dawnsio a dathlu.

Nofio

Wel am hwyl a gafwyd yng ngwers nofio gyntaf blwyddyn 2! Da iawn pawb am fod fel Robin Risg a mynd yn syth ati yn y dŵr. 'Roedd pawb wedi mwynhau, ac yn edrych ymlaen yn arw at weddill y gwersi.

Diolch

'Rydym eisoes wedi diolch i'n Cyfeillion am gynnal ffair arbennig cyn y Nadolig, a bellach mae'r adnoddau newydd wedi cyrraedd! Mae'r plant wedi gwirioni cael defnyddio'r Beebots newydd yn yr ardaloedd yn y dosbarth.

Prynhawn agored

'Roedd hi'n braf iawn cael croesawu'r plant-a'r rhieni - fydd yn cychwyn yn yr ysgol fis Medi nesaf yn ystod prynhawn agored yn yr ysgol. Cawsant flas ar weithgareddau'r dosbarth Meithrin a chyfle i gyfarfod a'r staff.

Tesco

Diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth ar gyfer cystadleuaeth 'Bags of Help' gyda Tesco. Daliwch ati i roi'r tocynnau glas ym mlwch Ysgol Abercaseg - Ffrindiau Ffitrwydd yn Tesco Bethesda a Bangor tan gwyliau'r Pasg.

Ymgymrwyr adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid Bethesda

☎ 01248 298763

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Ysgol Penybryn



Pêl-droed

Aeth deg o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 i dwrnament pêl droed yr Urdd yng Nghanolfan Brailsford ym Mangor. Cafwyd cyfle i chwarae sawl gêm yn erbyn ysgolion lleol eraill ac' roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle i wneud ffrindiau newydd.

Croeso

Hoffai plant a staff Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg groesawu Miss Eirian Madine atom ni fel pennaeth newydd. Bydd Miss Madine gyda ni am dymor ac mae wedi setlo'n syth! Gobeithio y gwnewch chi fwynhau eich amser gyda ni.

Llanystumdwy

Aeth Blwyddyn 3 ar ymweliad i Amgueddfa David Lloyd George yn Llanystumdwy. Cafodd pawb gyfle i fynd yn ôl mewn hanes gan fynychu ysgol fel yr oedd yn Oes Victoria. Yn anffodus 'roedd yn rhaid i un neu ddau wisgo'r Welsh Not am siarad Cymraeg, a chael eu cosbi gyda'r gansen am dorri rheolau'r ysgol - diolch byth bod pethau wedi newid

erbyn heddiw! Hefyd cawsom gyfle i weld Bwthyn Highgate, sef cartref plentynod David Lloyd George. 'Roedd gweithgareddau'r diwrnod wedi dod â'r gorffennol yn fyw ac 'roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Animeiddio

Mae Mr Robin Williams wedi bod yn cydweithio gyda phlant Glyder er mwyn creu cyfanwaith drwy animeiddio. Mae'r plant wedi troi stori Cawr y Carneddau yn ffilm fer sydd wedi'i hanimeiddio, gan ddefnyddio iPads. Mae'r plant (a'r staff!) wedi mwynhau'n arw ac yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r sgiliau a ddysgwyd ar gyfer prosiectau newydd.

CogUrdd

Bu cystadlu brwd yn Ysgol Dyffryn Ogwen pan aeth criw o gystadleuwyr yr Urdd yno i goginio er mwyn cael mynd trwodd i'r rownd nesaf. Bu Mrs Ceri Ogwen Owen yn blasu a beirniadu. Sylvie ddaeth i'r brig ac mae hi rwan yn mynd i'r rownd nesaf. Da iawn i bawb a fu'n cymryd rhan, a phob lwc i Sylvie!



Glasinfryn a Chaerhun

Clwb Perfformio

Mae Clwb Perfformio wedi dechrau yn y Ganolfan ers cyn y Nadolig, er mwyn rhoi cyfle i gantorion o bob math gael profiad perfformio mewn awyrgylch hamddenol, ac ar yr un pryd cael cyfle i wneud ffrindiau. Mae'r cyfarfodydd ar y trydydd nos Lun o'r mis am 6.30yh a bydd Marian Bryfdir a James Griffiths wrth law i gyfeilio. Erbyn hyn mae aelodau o Dregarth, Bethesda, Bangor a Chaernarfon yn dod i ganu ac yn gobeithio paratoi cyngerdd yn y Ganolfan cyn bo hir. Am fwy o fanylion cysylltwch â Marian Bryfdir:- Ffôn 01248 361702, Ebôst bryfdir1@btinternet.com

Cylch Glasinfryn

Cynhaliwyd prynhawn difyr iawn ar 8 Ionawr yn y Ganolfan pan gawsom ymweliad gan grŵp o Ganolfan Confucius o Brifysgol Bangor. Daeth Ruili Hao, Yueming Wang a Chen Hui atom i sôn am fywyd a hanes Tseina. Buom yn dysgu sut i ysgrifennu llythrennau Tseiniaidd, ac am y Seremoni Tê Tseiniaidd, a chael blasu'r tê mewn cwpannau bach pwrpasol. Cawsom flas ar

gyflymder trenau cyflym Tseina drwy gyfrwng ffilm - teithiau cyflym a drud, a chymharu hyn â'r trenau cyffredin. Ar y diwedd cawsom anrheg o furlun o farddoniaeth yn y dull Tseiniaidd, sydd wedi cymryd ei le yn dda ar wal y Ganolfan. Talwyd y diolchiadau gan Glenys, gyda Jocelyn a Carole yn darparu'r lluniaeth. Cawn bawn Cymdeithasol a Chyfarfod Blyneddol byr ym mis Chwefror, ac yna Cawl a Chên yng ngofal Marian ar 11 Mawrth am 6.30yh. Croeso cynnes iawn i bawb!

Dyweddio

Llongyfarchiadau cynnes (er ychydig yn hwyr!) i Sara Orwig, Bryn Gwredog Uchaf, a Rob Palmer o'r Cymoedd, ar eu dyweddiad yn ystod yr haf y llynedd.

Bingo

Cynhelir Bingo yn y Ganolfan ar 21 Chwefror am 7yh, gyda'r elw yn mynd tuag at y Gronfa Iechyd Meddwl leol. Croesewir unrhyw anrhegion tuag at y gwobrau, tombola a raffl yn ddiolchgar iawn. Dowch draw am noson o hwyl a sgwrs!

PEN Y CEUNANT ISAF

Y B W T H Y N T Ê

www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

Ysgol Llanllechid

Diolch a Ffarwel

Cynhaliwyd cyfarfod ar ddiwedd y tymor diwethaf i ddiolch i Mrs Jean Hughes am ei gwasanaeth i Ysgol Llanllechid. Bu Mrs Jean Hughes yn rhan o'n tîm yma yn Ysgol Llanllechid am bron i ddeugain mlynedd. Pob dymuniad da i chi Anti Jean, a dowch yn ôl i'n gweld o dro i dro!

Dymuniadau Gorau

Dymuniadau gorau i Ms Lliwen am wellhad llwyr a buan. Pawb yn cofio atoch Ms Lliwen!

Pen-blwydd Hapus

Pen-blwydd hapus arbennig i Anti Carol. Hwyl ar y dathlu!

Llongyfarchiadau i Ms Zoe

Llongyfarchiadau gwresog i Ms Zoe a Dion ar enedigaeth Nansi Flur! Edrychwn ymlaen at gael ei gweld yn fuan! Newyddion bendigedig!

Yr Hen Galennig

Dysgwyd cân Calennig i'r plantos. Da iawn nhw hefyd am greu'r modelau, gan ddefnyddio brigau a dail, wrth ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb yn null yr Hen Galan.

Cofio'r Ail Ryfel Byd

Bu disgyblion Bl 5 a 6 yn gwneud ymchwil bersonol ar yr Ail Ryfel Byd, a dysgwyd llawer am effaith y rhyfel ar Rachub a thrigolion yr ardal. Dysgwyd hefyd am gymeriadau dewr megis William Burgess, a fu'n garcharor rhyfel yn Japan. Cyfnod erchyll. Diolch hefyd i Mr Haydn Davies am ddod i mewn atom i drafod cyfnod y rhyfel byd cyntaf ac i rannu storïau dirdynol am aelodau o'i deulu, a dangos arteffactau diddordol oedd yn ysbrydoli'r disgyblion.

Ymchwil RSPB

Robin Goch, Titw Tomos Las, Sigl di gwt, Coch y Berllan, Deryn Du, Pioden - dyma rai o'r adar a welwyd drwy ffenestri ein dosbarthiadau yn ddiweddar! Bu'r Clwb Mentergarwch yn brysur yn creu bwyd i'r adar, ac mae'n wefr gweld y Titw Tomosiad yn gwneud campau ar y canghennau o gwmpas yr ysgol!



Sioe Bypedau

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn hynod o greadigol yn creu pypedau ar gyfer eu sioeau pypedau – ffordd wych o feithrin llafaredd! Daliwch ati!

Diwrnod Santes Dwynwen

Bu cryn ddathlu a chofio am Nawddsant y Cariadon ar y diwrnod arbennig, pan ddaeth pawb i'r ysgol yn gwisgo coch. Cafwyd gweithgareddau lu, a digon o ddawnsio i lwcs a Doyle,

Celt, 9 Bach, Candelas a.y.b yn ein disgo Santes Dwynwen.

Taith Bl 5 a 6

Bu blynyddoedd 5 a 6 ar daith addysgol i Fanceinion yn ddiweddar i ddysgu mwy am yr Ail Ryfel Byd. 'Roedd y disgyblion yn llawn brwdfrydedd yn gwrandao ar gyflwyniadau amrywiol ar agweddau o'r cyfnod, ac roeddent wrth eu boddau yn cael gwisgo gwisgoed milwrol wrth ddysgu am fywyd yn y

ffosydd. Beth gwell na chael gweld arteffactau gwreiddiol megis llyfrau dogni, llythyrâu gan filwyr i'w teuluoedd, a thanciau ac awyrennau amrywiol i gyfoethogi'r profiad? Wedi i ni orffen yn Amgueddfa'r Ail Ryfel Byd, aethom ymlaen i Ganolfan Lowry i ddysgu mwy am fywyd yr artist enwog, oedd â chyswllt cryf â'r Ail Ryfel Byd. Profiadau arbennig!

Welsh Whisperer

Bu'n fraint croesawu'r Welsh Whisperer i'r ysgol a chafwyd amser bendigedig yn dawnsio ac yn dysgu ei ganeuon. Roedd 'Fi'n belio nawr' a 'Bois y Loris' yn ffefrynnau mawr! Diolch am ddod draw ac edrychwn ymlaen at eich gweld yma eto hefo ni'n fuan!

Teithiau Diogel i'r Ysgol

Mae'r Cyngor Ysgol yn brysur yn meddwl am ffyrdd i annog y disgyblion i deithio i'r ysgol ar feic, sgwter, neu gerdded, yn hytrach na dod mewn ceir. Mae'r Cyngor Ysgol hefyd yn meddwl am gynlluniau i annog rhieni i barcio ym Mhlas Ffrancon a cherdded ar hyd Lôn Bach Odro. Mae cryn brysurdeb wrth i'r disgyblion geisio meddwl am ffyrdd i arafu llif y traffig yn sgwar Rachub. Diolch i'r cynghorydd Paul Rowlinson am ddod i mewn i drafod efo'r Cyngor Ysgol. Dyfal donc!

Clwb Rhedeg

Da iawn Mr Emlyn am ddechrau'r Clwb Rhedeg boreol! Mae'r plantos wrth eu boddau, ac ambell aelod o staff hefyd a'u gwynt yn eu dwrn ar ddechrau'r diwrnod! Gwych!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Marian Jones, Mrs Helen Roberts a Blwyddyn 3 ar ennill cystadleuaeth addurno siop Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda cyn y Nadolig! Llongyfarchiadau ar ddod i'r brig!

Siarter Iaith

Llongyfarchiadau i holl gymuned yr ysgol ar lwyddo i ennill Gwobr Aur Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd. Da iawn pawb!

Ysgol Tregarth

Y Fari Lwyd

Bu cynnwrf anhygoel yn Nosbarth Ffrydlas, brynhawn lau, Ionawr y 9fed pan ddaeth Mr Huw Roberts o Langefni i ymuno â ni. Yn ei ddull dihafal ei hun, fe gyflwynodd i'r plant hanes a thraddodiad y Fari Lwyd yng Nghymru dros gyfnod y Gwyliau a'r Calan. Fe ddaeth â'r Fari gydag ef, a gwisgoedd arbennig ar gyfer y cymeriadau Siwan a Pwnsh. I gyfeiliant ei ffdil cawsom ganu, ac actio'r traddodiad o'i ddechrau i'w ddiwedd. Ni fu erioed y fath fwrlwm, yn ganu, dawnsio a chwarae rôl a phob un disgybl yn rhan o'r ddrama. Dyma gyflwyno rhan bwysig o'n traddodiad i'r plant, ac yn sicr bydd yr ymweliad yn aros yn eu cof am amser hir.

Nofo

Llongyfarchiadau unwaith eto i Mark O'Malley, a fu'n cynrychioli Eryri yng nghystadlaethau genedlaethol nofio'r Urdd draw yng Nghaerdydd. Bu Mark yn cystadlu fel unigolyn yn y gystadlaethau - da iawn ti.

Gweithdy gan yr Esgobaeth

Ddydd Gwener, Ionawr 31ain cafodd holl ddisgyblion yr ysgol

brofiad arbennig drwy gymryd rhan mewn gweithdy a oedd wedi ei drefnu gan yr Esgobaeth. Bu pob disgybl yn gwrandao'n astud er mwyn creu Christingle i fynd adref gyda nhw. Roedd yn gyfle ymarferol i gael dysgu mwy am arwyddocâd y gwahanol symbolau sydd yn rhan o'r Christingle. Daeth y bore i ben gyda gwasanaeth yn sôn am oleuni Crist. Diolch am y cyfle i fod yn rhan o'r gweithdy - 'roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Gweithdy Technocamps

Ar gychwyn y flwyddyn newydd cafodd disgyblion cyfnod allweddol 2 y profiad o gymryd rhan mewn gweithdy TGCh (meddwl yn gyfrifiadurol a chodio). Daeth aelodau o'r tîm technocamps sy'n gysylltiedig â phrifysgol Bangor draw i'w gynnal. Cafodd dosbarth Ogwen gyfle i ddysgu am y llinyn meddwl yn gyfrifiadurol, gan edrych yn bennaf ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rhaglennu gemau, apiau ac ati. Ar y llaw arall, bu dosbarth Ffrydlas yn brysur yn torri codau gan ddefnyddio olwyn seiffr - profiad hollol newydd i'r disgyblion. Byddwn mewn cysylltiad â'r tîm



technocamps yn fuan i drefnu gweithdy gwahanol ar gyfer yr hanner tymor nesaf.

Ymweld â Bwyty Eastern Origin

Fel rhan o thema gourmet byd eang yn nosbarth Ogwen y tymor yma, cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â bwyty Eastern Origin ym Mangor. Bu cyfle iddynt i ddysgu am y flwyddyn newydd Tsieineaidd a'u traddodiadau. Yn ogystal â hynny, cafodd y plant gyfle i flasgu amryw o fwydydd gwahanol oddi ar y fwydlen. 'Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn arw, ac yn llawn canmoliaeth i'r bwyd a'r croeso gan Alice a gweddill y staff. Bydd y plant yn ysgrifennu adolygiad ynglŷn â'r ymweliad.

Ysgol Rhiwlas

Gwasanaeth Nadolig

Eleni, penderfynasom gynnal Gwasanaeth Nadolig yn hytrach na'r sioe arferol. 'Roedd yn braf clywed y plant yn ein hatgoffa ni o wir ystyr y Nadolig drwy ddarlenniadau a chaneuon traddodiadol. Derbyniwyd cyfraniadau o fwydydd gan y rhieni ar y noson, ac 'rydym yn falch o ddweud fod y Banc Bwyd yn falch iawn o'r rhoddion. Diolch i bawb am eich cefnogaeth unwaith eto.

Trên Sion Corn

Aeth y babanod ar drip gwerth chweil ar drên Sion Corn yn Llanberis. 'Roedd pawb yn llawn cyffro ac 'roedd eu hwynebâu yn werth eu gweld wrth iddynt dderbyn anrhegion ganddo! Diolch yn fawr iawn i'r holl staff am brynhawn anhygoel.

Capel Y Ffynnon

Yn ôl ein harfer, aeth disgyblion Ysgol Rhiwlas i Capel Y Ffynnon ym Mangor i

ddysgu am stori'r Geni. Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn mynd yno a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, megis ail ddweud y stori a chelf a chreffft. Diolch unwaith eto am eich croeso cynnes!

Staff

Cyn y Nadolig bu i ni ffarwelio â Miss Emma Hughes - hoffem ddymuno pob lwc iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Pendalar, Caernarfon. Buom yn lwcus iawn i gael Miss Hughes yn ein plith am dair blynedd, a bydd colled fawr ar ei hôl. Cofiwch gadw gysylltiad! Hoffem groesawu Miss Lisa Francis atom. Mae Lisa wedi dechrau yn Ysgol Rhiwlas ers dechrau'r flwyddyn ac mae wedi setlo'n wych ymysg ein plant. 'Rydym yn lwcus iawn o'i chael fel rhan o'r tîm yma'n Ysgol Rhiwlas.

Teach Rex

Yn ystod rhan o'r tymor diwethaf bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dysgu am



ddeinosoriaid, a chawsant hwyl dros ben yn darganfod ffeithiau diddorol am eu cyfnod. Trefnwyd gweithdy Teach-Rex ar gyfer y plant a bu iddynt wirioni gweld deinosaurs anferthol yn ein hysgol - bore difyr iawn!

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Eglwys Y Santes Fair, Tregarth

Gwasanaethau

Chwefror

23: Cymun Bendigaid

Mawrth

1: Boreol Weddi

8: Cymun Bendigaid

15: Boreol Weddi

Pob gwasanaeth am 9.30. y bore

Te Crempog

Cynhelir y Te Crempog ddydd Mawrth,
Chwefror 25, am 2.00 y prynhawn. Croeso
cynnes i bawb.

Profedigaethau

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Dilys
Meinir Parry Williams ar Ionawr 26 yng
Nghartref Ceris Newydd, Treborth. Tan yn
ddiweddar iawn 'roedd Dilys a'i diweddar ŵr,
Wil, yn byw yn Yr Encil, Tal y Cae, ond wedi
marwolaerth ei phriod ni fu ei hiechyd yn dda.

Cydymdeimlwn gyda'i merch Rhian Mair, ei
mab Trystan a'i briod Rhian Non a'u meibion
Morgan Huw ac Henri Ifan a'r holl deulu yn
eu profedigaeth. Bu ei hangladd yn Amlwgfa
Bangor ar Chwefror 15.

Bu farw un arall o gyn - drigolion Tal y
Cae, sef Cassie Williams, a arferai fyw yn
rhif 9. Wedi iddi hithau golli ei phriod Dafydd
dros ugain mlynedd yn ôl aeth Cassie i fyw
i'w hen gartref yn Llanerchymedd ac yna i
Gartref Plas Crigyll, Bryngwran, lle y bu farw
ar Ionawr 13. Bu'r angladd yng Nghapel Ifan,
Llanerchymedd ar Ionawr 24. Anfonwn ein
cofion at y marchod: Derwena, Eirian a Haf,
a'u teuluoedd.

Daeth profedigaeth i ran teulu Olwen a
Gareth Pritchard, Penrhyn View, pan gafodd
nai iddynt ei ladd mewn damwain ffordd
yn ardal Conwy. Anfonwn ein cofion at fam
Olwen, sef Noreen ym Methesda, a'r holl
deulu yn eu galar.

Daeth profedigaeth i ran dwy o aelodau
Shiloh sef Rhian Evans- Hill a Noreen Jones.
Bu farw tad Rhian sef John Huw Evans,
Rhiwlas, a bu farw gor- wyr Noreen , sef
Lee James Roberts o Benmaenmawr mewn
damwain ffordd. Anfonwn ei cofion atoch eich
dwy a'r ddau deulu.

Yn yr Ysbyty

Gwellhad buan a llwyr i Edward Jones,
Dob, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn
ddiweddar. Gobeithio eich bod yn gwella
Edward.

Diolch

Dymuna Carys Williams, 12, Tal y
Cae, ddiolch yn ddiffuant i bawb am
yr ymweliadau a'r galwadau ffôn a
gafodd yn ystod ei thriniaeth ddiweddar.
Gwerthfawrogi yr holl gonsyrn yn fawr
iawn.

Clwb Cant Canolfan Tregarth

Mis Ionawr:

1af: Betty Jones 42

2il: Dafydd Roberts 52

3ydd: Dorothy Schofield 11

Priodas

Llongyfarchiadau i Angharad
Gwyn, Gorffwysfa, Sling, a Siôn
Foulkes o Fethel, ar eu priodas
yn ddiweddar, yng nghwmni teulu
agos, yn Sommaroy, Norwy, lle y bu
i'r ddau ddyweddio ddwy flynedd
yn ôl. Mae'r ddau yn gweithio
ym Mhrifysgol Bangor ac wedi
ymgartrefu yng Nghae Athro Bach.

Capel Shiloh Tregarth

Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir
yn wahanol

Chwefror

23 Y Parchedig Eric Jones, Bangor

Mawrth

1 Y Parchedig Richard Gillion

8 Y Parchedig Gwynfor Williams,
Caernarfon.

15 Y Parchedig Philip Barnett,
Swydd Efrog

22 Mr Glyn Owen, Llanwnda

29 Y Parchedig Richard Gillion

Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i Iris Harper a theulu
Ty Newydd, Llandygai. Ganed bachgen
bach i Iwan a Sally, sef Eric Idwal , sydd
yn or- wyr i Iris ac yn wyr i Geraint a
Myfanwy. Llongyfarchiadau mawr gan
bawb o Shiloh.

Drws Agored

Cofiwch fod drws agored yn Shiloh
bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 o'r
gloch. Cyfle am sgwrs, paned a chwmni
diddan. Dewch yn llw!

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Trefn y Gwasanaethau (am 2.00yp.)

Chwefror 23: Mr. Arwel Roberts.

Mawrth 01: Oedfa.

Mawrth 08: Parchg. John Gwilym Jones.

Mawrth 15: Parchg. Richard Glyn Jones.

Mawrth 22: Oedfa.

Mawrth 29: Mr. Dafydd Iwan.

Croeso cynnes i bawb.

SIOP OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen.
Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau,
Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra,
CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon,
Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro,
Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau
Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau
(e.e. Barn, Mellten, Bore Da,
Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt
ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2),
Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd
Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

01248 208 485

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853



Y Gerlan

Heledd Selwyn, 2 Pen Clwt,
Gerlan LL57 3TJ
☎ 01248 208254 07880 702640
heleddselwyn@hotmail.com

Dathlu Pen-blwydd Arbennig

Penblwydd hapus iawn i Rhian Roberts, Ciltrefnus, sydd wedi dathlu penblwydd arbennig fis diwethaf! Gobeithio iddi gael amser gwerth chweil!

Cartref Newydd

Dymuniadau godau i Siôn Glyn ac Eli, Mabli Non a Nanw, sydd wedi symud i'w cartref newydd yn 13 Gwernydd. Pob hapusrwydd iddynt.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Dei Fôn Williams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer, sef Beti Roberts, yn ddiweddar.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Ricky Florence a'i deulu oll yn eu profedigaeth o golli Mrs Mary Elizabeth Dawtrey.

'Roedd yn Nain hoffus a ffeind iawn a bydd colled fawr ar ei hôl.



Casglu Sbwriel

Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Gerlan aeth allan i gasglu sbwriel fis diwethaf. Casglwyd dros 20 bag o sbwriel o Gerlan a Charneddi. Diolch yn fawr iawn i chi gyd am eich parodrwydd, ac am eich llafur caled.



Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Dion a Zoë ar enedigaeth merch fach ar Ionawr 19 sef Nansi Fflur - mae pawb wedi mopio!

Cynnig Gofal Plant Cymru

Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn



Ffôn: 01248 352436 E-bost: gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru

Cysylltwch â ni: post@llaisogwan.com

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Dyddiadur

Boreau Coffi



2020

Mawrth

07 Cefnfaes – Plaid Cymru.

14 Cefnfaes – Gorffwysfan.

21 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.

28 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Ebrill

04 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

18 Cefnfaes – Cymdeithas Jerusalem.

25 Cefnfaes – Plaid Lafur.

Mai

02 Cefnfaes – NSPCC

16 Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.

30 Cefnfaes – Eglwys Sant Tegai

Mehefin

06 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.

20 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

27 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Gorffennaf

04 Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracey Smith.

Medi

12 Cefnfaes – NSPCC.

19 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.

26 Cefnfaes – Plaid Cymru.

Hydref

03 Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.

10 Cefnfaes – Eglwys Sant Tegai.

17 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

24 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Tachwedd

07 Cefnfaes – Gorffwysfan.

14 Cefnfaes – Clwb Camera Dyffryn Ogwen.

21 Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracey Smith.

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.

Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.

Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

CYMDEITHAS
HANES DYFFRYN OGWEN

Nos Lun, 9 Mawrth am 7.00yh
yn Festri Capel Jerusalem

Ieuan Wyn
“Teulu Brenhinol
Cymru ac Arllechwedd”

£1.50 wrth y drws neu
am ddim i aelodau

**Grŵp Canu Ogwen
(Sgwrs a Chân)**

Pob bythefnos o’r
10 Ionawr ymlaen
1.30 – 2.30yp

(Panad a Sgwrs am 1.15)
**yn Ystafell Gymunedol
Canolfan Feddygol Bethesda**

Croesewir aelodau newydd sydd
dros 50 oed, yn enwedig dynion

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI
GORFFWYSFAN
SADWRN, 14 MAWRTH
10.00 – 12.00

Marchnad Ogwen

Mawrth 14eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Ebrill 11eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Mai 9ed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853
(nev_hughes@
btinternet.com)

Ysgoldy Carmel,
Llanllechid

TE BACH
Pnawn Llun,
24 Chwefror
2.30 – 4.00
Croeso i bawb



CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
CHWEFROR 25
MAWRTH 10, 24, 31
am 7:00 o’r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
PLAID CYMRU**
SADWRN, 7 MAWRTH
10.00 – 12.00

Cymdeithas Jerusalem
yn Festri Jerusalem
Nos Iau, 12 Mawrth
am 7 o’r gloch
gyda
Mrs. Helen W. Williams
a “Dwylo Prysur”

**BETHESDA
– POBOL
Y CHWAREL**

Mae cwmni Boom Cymru wedi treulio sawl mis yn ffilmio yn Nyffryn Ogwen a hoffai’r tîm cynhyrchu - Nia Parry, Rhodri Davies a Deiniol Morris ddiolch o galon i holl drigolion yr ardal am eu cydweithrediad parod, cyfeillgarwch a’u cyfraniad i’r gyfres.

.....

Bydd y gyfres ‘**Bethesda- Pobol y Chwarel**’ yn dechrau darlledu am 21.00 Nos Iau Mawrth 19eg ac yn darlledu yn wythnosol ar Nos Iau am chwech wythnos tan
Ebrill 23ain, 2020.

Ysgol Bodfeurig

Taith dosbarth Idwal i Tesco

Fel rhan o thema 'Archfarchnad' aeth dosbarth Idwal ar ymweliad i Tesco ym Mangor ddydd Mawrth, 14eg o Ionawr. 'Roedd y plant wedi mwynhau edrych ar beth oedd ar werth yn yr archfarchnad, gan nodi gwrthrychau, a thynnu lluniau. Braint oedd cael mynd gyda Sarah, un o'r gweithwyr, i gefn y siop, a gweld yr oergell a rhewgell, a'r holl fwydydd yn barod i fynd allan ar y sillfoedd. 'Roedd eu hwynebau yn oer ond hapus wrth iddynt gael tro yn sefyll y tu mewn i'r rhewgell fawr, cyn mynd ymlaen i gael diod a bisged yn y caffi. Cafodd pawb fag gyda ffrwythau a bisgedi iach i ddod 'nôl i'r ysgol. 'Rydym yn ddiolchgar i Tesco.

Gair o ddiolch

Hoffem ddiolch i Abbie, gweithiwr o gwmni Howdens Joinery ym Mangor, am rodd o gegin newydd i'r ysgol. Mae'r plant a'r staff yn edrych ymlaen at gynnal gwersi coginiol! Diolch i'r cwmni am fod mor hael, ac am eu caredigrwydd unwaith eto.

Cyngor Ysgol

Bu cyffro mawr yn yr ysgol brynhawn lau, Ionawr 23ain, gan fod y Cyngor Ysgol wedi trefnu Disco Santes Dwynwen i'r plant am 3 o'r gloch. 'Roedd pawb wedi mwynhau'r gemau, bwyd a dawnsio, a gorffennwyd y noson gyda 'dance off' i gyfeiliant 'Sosban Fach'. Gwnaed elw o £100 o'r noson, a hoffem ddiolch i'r plant a'u rhieni am eu cefnogaeth. Mae'r Cyngor Ysgol am gael barn eu cyd ddisgyblion ar y ffordd orau i wario'r arian.

Modurdy Central

**M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031**

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Merched y Wawr

Bob Mis Ionawr ers tro bellach 'rydym yn cyfarfod yn y prynhawn, ond nid felly eleni. Gorfu i ni ganslo'r cyfarfod oherwydd gerwinder y tywydd - 'roedd y gwynt cryf a'r glaw wedi ennill y dydd. 'Rydw i'n sicr y cawn gyfle eto i weld gwaith llaw Margaret Jones, Tregarth, a'i merch, Jên.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Ionawr 8fed: Cawsom gyfarfod buddiol yn trefnu rhaglen ar gyfer y tymor. Dilys ac Ann oedd yn gyfrifol am y baned a chawsom deisen flasmus hefyd. Cyfarfod Ionawr 22: Yn y cyfarfod yma 'roedd pawb yn dod â rhywbeth i'w wneud, rhai'n gwau, un arall yn gwneud brodwaieth, Sudoku a Chwilair. Braf oedd cael croesawu Myra yn ôl atom wedi anhwylder. Cafwyd pnawn difyr, a Frances ac Iona oedd yn gyfrifol am y baned. Rydym yn cyfarfod ar yr 2ail a'r pedwerydd Dydd Mercher o'r mis. Croeso i aelodau hen a newydd.

Y Neuadd

Ionawr: Cafwyd Bingo Santes Dwynwen - noson hwyliog, ac Elwyn oedd yn galw. Diolch i blant yr ysgol am wneud cardiau i ddatlu'r diwrnod arbennig yma a diolch i'r Prifathro a staff yr ysgol am gefnogi'r gweithgaredd. 'Roedd y neuadd wedi'i hardduno'n ddeniadol iawn - diolch eto i Elfyn a Cadi. Cafwyd raffl a phaned, a diolch i aelodau'r pwyllgor am gyfrannu at hyn.

Cawl a Thwmpath



Nos Sadwrn, Chwefror 29
am 7 o'r gloch - dewch yn llw!

Profedigaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth John Huw Evans, Bro Rhiwen, ac yn ddiweddar Plas Pengwaith, Llanberis. Anfonwn ein cydymdeimlad at Rhys a Rhian a'u teuluoedd. Fe welir ei golli hefyd gan ei wyrion, Heledd a Morgan. Bydd teyrnged iddo yn y rhifyn nesaf.

Brysiwch wella

Fe dreuliodd Meurig Williams, Bro Rhiwen, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd a hefyd nid yw Tony Jones, Bron y Waun wedi bod yn dda yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau i chi ac i bawb arall sydd heb fod yn gant y cant yn ystod yr wythnosau diwethaf yma.

Enaid Eryri

Llyfr o luniau yw hwn gan Richard Outram a dyma a ddywed yn y rhagair, "Dyma stori ddynol Eryri. Ein bywydau ni sy'n cael eu ffurfio a'u datblygu gan ei thir. Mae gennym ni i gyd stori wahanol i'w dweud, ond mae Eryri yn ddolen drwy'r cyfan." Mae bywydau'r awduron sydd wedi cyfrannu at y gyfrol hon hefyd ynghlwm ag Eryri, ac i'r ffotograffydd y bobl yw enaid Eryri.

Un a gyfrannodd i'r llyfr yw Manon Steffan Ros, a Rhiwlas yw ei thestun hi. Dywed fod ysbryd ei phlentyndod ymhob modfedd o'r fan hyn, er enghraifft ar y creigiau lle 'roedd Craig Fawr, lle byddai rhai'n mentro i lawr y sleid serth. Sonia hefyd am gapel Pisgah ac "arogl hen Feiblau a phren yn llenwi'r lle ac atgof rhes o hen antis - Anti Buddug, Anti Dyddgu, Anti Heulwen ac Anti Rhiannon, a blas fferins bach crwn a gafwyd gan Anti Ann." Cyfeiria hefyd at Moelyci, Camp, yr ysgol a Lôn bach Awyr. Diolch Manon am rannu'th atgofion â ni.

Un arall a gyfrannodd i'r gyfrol yw Ieuan Wyn a cheir dwy gerdd ganddo: Rhodiwr Daear a Tiroedd ein Cof. Dyma ddyfyniad: "Mae caru gwlad o hyd yn llawn gofalon, A rhodd y cwlwm hwn yw braint y galon." Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Carreg Gwalch - mae'n werth ei gael.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgryn, cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein
☎ 07743373895 ✉ Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

Llandygái

Iona Wyn Jones,
Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái,
Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Babi Newydd
Llongyfarchiadau mawr i Iwan a Sallie o fferm Ty Newydd, Llandygái, ar enedigaeth mab, sef Eric Idwal - ŵyr i Myfanwy a Geraint Harper, a Gwenda a Keith Roberts, Druid, Mona. Mae Hen Nain Iris wrth ei bodd. Mae'n hyfryd cael croesawu babi newydd i'r ardal.

Eglwys Sant Tegai
Raffl Santes Dwynwen a Bingo'r eglwys
Ar nos lau, Ionawr 30ain cynhaliwyd ein Noson Bingo Santes Dwynwen yn Neuadd Talgai. Diolch i'r cefnogwyr o eglwysi Tregarth a St Cross yn ogystal â'r ffyddloniaid o St Tegai a phentref Llandygái. Mae'n gyfle da i gymdeithasu a mwynhau sgwrs a phaned ar noson oer yng nghanol gaeaf. Raymond a Pauline oedd yn

arwain y noson fel arfer gyda digon o wobrau rhamantus i'w hennill. Enillwyd Raffl Fawr Santes Dwynwen – potel o "champagne" gan Rhian Owen o Eglwys Gelli. Diolch i bawb. Codwyd swm sylweddol i'r Gronfa Atgyweirio sydd yn flaenoriaeth eto yn 2020.

Cydymdeimlad
Trist oedd clywed am farwolaeth Eddie Riley o safle Greenacres ger y pentref ac 'roedd yr eglwys yn llawn i dalu'r deyrnged olaf. Mae'r teulu'n sefydlog yn ein plith ers blyneddoddd maith. Cydymdeimlwn â'r teulu a'r ffrindiau lu.

Gwellhad buan
Dymuniadau gorau am wellhâd buan i bawb yn yr eglwys ac yn y pentref sydd yn parhau i dderbyn triniaeth neu i ddisgwyl sylw yn yr ysbty.

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygái
Gwasanaeth pob bore Mercher yn Sant Tegai am 10.15 y.b. Mae newid dros dro i'r drefn felly bydd pob gwasanaeth Sul wythnosol am 11.00y.b.
Cofiwch gadw golwg ar hysbysfwrdd yr eglwys rhag ofn y bydd newidiadau ar fyr rybudd.

CLWB CAMERA DYFFRYN OGWEN

Lleoliad: Canolfan Cefnfaes, Bethesda
7.15yh - 9.30yh

RHAGLEN CHWEFROD - EBRILL 2020

Chwefror 19: Noson Ymarferol

Mawrth 4: 'Tynnu lluniau yn fy mhen' - Y Parch Dr Richard Hainsworth

Mawrth 18: Cystadleuaeth Clwb

Testun: Carreg (Beirniad: Andy Polakowski)

Ebrill 1: Noson yng nghwmni Gareth Jenkins

Ebrill 15: 'Gweithio Tuag at Ragoriaeth' - Sian Davies

Ebrill 29: Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol

Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau www.dyffrynogwencamera.co.uk

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



gair neu ddau

John Pritchard

BOD YN ANGHYWIR
Dwi'n hoffi bod yn gywir. Pwy sy ddim? Mae yna ryw beth braf ynglyn â'r peth. Ond heddiw, dwi'n dyheu am fod yn anghywir.

Mae'n ddechrau Chwefror, a'r hyn y bu miliynau o bobl gwledydd Prydain yn ei ofni wedi digwydd. Torrwyd y cwlwm â'r Undeb Ewropeaidd wrth i gefnogwyr Brexit gael y maen i'r wal. Heb os, mae yna bobl dda sy'n gorfoleddu ac yn falch o'r 'rhyddid' a sicrhawyd. Mae yna bobl sy'n wirioneddol

gredu fod dyfodol llewyrchus o'n blaen. Ond tristwch pethau yw mai ychydig ohonynt sy'n gallu dweud pam eu bod yn credu hynny. Hyd y gwelaf fi, y gorau y gall y mwyafrif ei wneud yw ail adrodd y geiriau ystrydebol a'r sloganau diystyr a gaed ar wefusau gwleidyddion ac eraill a fu'n ymgyrchu o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mi deimlwn yn well am yr holl beth pe byddwn wedi clywed pobl yn dadlau dros Brexit heb lynu'n slafaidd wrth eiriau'r bobl hynny gan fod cynifer ohonynt yn amlwg wedi dweud pob math o gelwyddau'n gwbl ddigwylydd dros y blyneddoddd diwethaf. Mae'n dal yn ofid i ni gael ein llusgo'n ddiangen i'r lle rydym bellach oherwydd dadleuon mewnol o fewn y Blaid Geidwadol rai blyneddoddd yn ôl. A gofid mwy na hynny yw nad oes modd gwybod i sicrwydd a yw'r Prif

Weinidog a lwyddodd i 'get Brexit done' wir o blaid y peth. Mae'n sobor meddwl y gallasai uchelgais personol wedi bod yn bwysicach iddo na'r hyn a fyddai orau i'r gwledydd hyn.

Ond erbyn hyn, dwi isio a bod yn anghywir. Nid ynglyn â'r Prif Weinidog nac unrhyw un o'i gyfeillion, nac ynglyn â chanlyniadau Brexit yn wleidyddol neu economaidd. Isio bod yn anghywir ydw i o ran yr ofn y gall Brexit beryglu heddwch. Un o gonglfeini'r Undeb o'r cychwyn fu'r awydd i sicrhau heddwch. Wedi erchylltra dau ryfel a rwygodd Ewrop yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf daeth y gwledydd ynghyd yn fwyaf arbennig er sicrhau heddwch i bobl y Cyfandir. Yr ofn sydd gen i yw bod cefnu ar yr Undeb yn ein pellhau oddi wrth sefydliad sydd yn ei hanfod yn wrthwynebus i ryfeloedd. Ac wrth ddymuno perthynas

agosach â'r Unol Daleithiau trwy gytundebau masnach newydd, onid oes berygl gwirioneddol y bydd y Deyrnas Unedig yn fwy tueddol o gael ei thynnu i mewn i unrhyw ryfeloedd y bydd yr Unol Daleithiau yn neidio iddynt? Beth pe byddai parhad cytundeb masnachol o bwys yn amodol ar gefnogi rhyfel mewn gwahanol rannau o'r byd?

Ond ar wahân i'r Unol Daleithiau, dwi'n ofni y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hun yn fwy tebygol o fynd i ryfel wedi i ni gefnu ar yr Undeb Ewropeaidd. O golli dylanwad ataliol ein cymdogion Ewropeaidd, hawdd iawn yw dychmygu y gall 'yr ysbryd Prydeinig' diarhebol arwain y gwledydd hyn i ryfeloedd ynyd a ffôl. Fyddai hynny ddim y tro cyntaf i beth felly ddigwydd.

Ac yn hyn o beth, ydw dwi'n wirioneddol obeithio a gweddïo mod i'n anghywir.

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Noson Santes
Dwynwen i'w chofo yn
Llanfairfechan

Ar 25 Ionawr aeth aelodau'r côr a sawl aelod o'u teuluoedd draw i Neuadd y Dref, Llanfairfechan i gadw noson yng nghwmni Gruffydd Wyn, y tenor gyda'r llais pwerus o Fôn, ac Alistair James y canwr o Lanfairfechan. Mae'r côr yn derbyn croeso mawr yn Llanfair ac 'roedd y neuadd yn llawn i'w hymylon, gyda thros 350 yn eistedd wrth fyrddau yn mwynhau'r wledd o ddifyrrwch a chanu.

Agorwyd y noson gan y côr yn sefyll yn nwy ochr y Neuadd yn canu dwy gân o Dde Affrica, sef 'Nkosi Sikelele' a 'Tshotolosa' cyn bwrw

i mewn i 'Moliannwn', cân a gyfansoddwyd gan Benjamin Thomas, y chwarelwr o Fethesda, tra 'roedd o'n byw yn Vermont a thalaith Efrog Newydd. Mae 'Tshotolosa' a 'Moliannwn' yn rhan o gyflwyniadau cyson y côr bellach, ac mae pawb yn edrych ymlaen i'w clywed. Wedi cerdded i'r llwyfan rhoddwyd perfformiadau pellach o raglen helaeth y côr, gan gynnwys ffefrynnau fel 'Gwinllan a roddwyd', 'Mor fawr wyt Ti' a 'Wade in the Water.' 'Roedd unawdwyr fel Caleb Rhys Jones, John Outram, Rheinallt Davies, Hywel Thomas, Elfyn Bullock, Tom Williams ac Owain Arwel yr arweinydd yn cyfrannu at rai o ganeuon y côr. Gall Côr y Penrhyn

ymffrostio fod gennym gyfoeth o dalentau eraill a all gyfrannu at noson o adloniant heb ei ail. Mae aelodau Hogia'r Bonc i gyd yn canu yn y côr, ac ymhlith rheiny mae unigolion talentog fel Maldwyn Pritchard. Mae Maldwyn yn mwynhau canu mewn sawl côr a pharti, ond hefyd mae'n mwynhau serenennu mewn sesiynau ffotograffig a theledu.


Llais anhygoel
Seren y noson heb amheuaeth oedd Gruffydd Wyn o Fôn. Bydd darllenwyr y golofn hon yn cofio i Gruffydd ddod yn agos iawn i'r brig yn y gystadleuaeth 'Britain's Got Talent' yn 2018 a gwnaeth ei lais tenor grymus a soniarus argraff



arbennig ar y beirniaid. Gall swyno cynulleidfya gyda melynster ei nodau wrth berfformio caneuon serch, caneuon allan o sioeau cerdd neu ganeuon poblogaidd Cymraeg a Saesneg. Ar ben hynny mae'n argyhoeddi fel tenor operatig o'r iawn ryw. Mae o bellach yn gyfarwydd i gannoedd o filoedd ac ni synnem weld ei enw ar lwyfannau tai opera mawr y byd cyn hir.

Un arall a gyfrannodd yn aruthrol i'r noson oedd Alistair James, y canwr poblogaidd o Lanfairfechan. Mae Alistair wedi rhannu llwyfan gyda'r côr ar sawl achlysur ac unwaith eto llwyddodd i gadw'r gynulleidfya'n ddiddig am yn agos i ddwy awr. Mae ei 'repertoire' yn wirioneddol eang a dylai gael bob clod am ei allu i ddiddori pobl am gyfnod mor hir.

Llongyfarchiadau i aelodau Llanfairfechan am eu gwaith caled yn trefnu noson mor eithriadol o lwyddiannus, ac i wragedd a theuluoedd yr aelodau am eu cymorth.



Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi
ychydig o fanylion am
aelodau Côr y Penrhyn.

Yr aelod y mis hwn yw
Owain Evans o'r Gerlan, sy'n gweithio yng Ngholeg Menai, Bangor.

Be' ydy dy enw llawn?
Owain Rhodri Evans (Bryn Cul)

Oed? 27
Gwaith Cydlynnydd arholiadau
Lle wyt ti'n byw? Gerlan
Un o le wyt ti'n wreiddiol? Gerlan - heb fentro'n bell!

Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?
Cymwynaswr, teithiwr a cherddwr

Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr? 2 flynedd

Pa lais wyt ti? Bas 1
Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?
Gwelld yr holl brofiadau oedd

hogia'r côr yn eu cael, boed yn gyngherddau neu deithiau o gwmpas y wlad/byd. Ac arbed Twm Bach rhag plygu fy nghlust yn y Siôr ar nos Sadwrn!

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?
Anodd dewis un gân. 'Benedictus' neu 'Gwinllan a Roddwyd' yn dod i'r meddwl.

Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?
Camu ar lwyfan Glastonbury ac edrych ar y dorf o'n blaenau - teimlad swreal.

Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?
Teithio, araf deg yn croesi Ewrop i ffwrdd. Cerdded y mynyddoedd

Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?
Anodd meddwl ar hyn o bryd o ystyried profiadau 2019.

Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? Bruce Springsteen
Beth ydy dy farn di am ganu pop? Bandiau pop wedi bod yn arloesol mewn rhai ffyrdd, un neu ddau o'r 80au yn..... ddiddorol.



RHAGHYSBYSIAD! RHAGHYSBYSIAD!

Venue Cymru, Llandudno
27 Mehefin 2020

Côr y Penrhyn a
Band Black Dyke

Tocynnau am bris gostyngol gan Walter Williams
Tel: 01248601167 / 07988749308
Ebost: waltermenai@yahoo.co.uk

Llythyrau

Annwyl Olygydd,
Mae darllen colofn *Pwy sy'n cofio ddoe?* Dr. J. Elwyn Hughes bob amser yn ddifyr dros ben, ac yn agor y drysau i lif o atgofion plentyndod. Dyna ddigwyddodd yn rhifyn mis Ionawr. 'Roedd fy nhaid a nain (Taid a Nain Braichmelyn) yn byw yn rhif 19, ac 'roeddwn i wrth fy modd, pan yn blentyn, cael eistedd ar lechen o flaen y drws ffrynt, yn gwyllo rhesi o chwarelwyr yn cerdded tuag adref drwy Fraichmelyn. Gallaf glywed

hyd heddiw sain yr esgidiau mawr yn clecian ar y ffordd, a lleisiau'r dynion yn sgwrsio. 'Dwi'n cofio hefyd fynd yn blentyn gyda'm ewythr oedd yn byw yn rhif 54 i wyllo'r 'Cup Final' ar deledu Yncl Len Elwyn. 'Roedd yr ystafell yn orlawn, a'r teledu yn dipyn llai na rhai heddiw! Amgaeaf lun o rhif 19 ar gychwyn y ganrif ddiwethaf, a'm modryb Nansi yn eistedd lle 'roeddwn i'n arfer eistedd. Cofion,
Gareth William Jones



Annwyl Golygydd
Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch 2020
Estynnir gwahoddiad i gwmnïau drama i ddod draw i Gorwen i gystadlu yng **Ngŵyl Ddrama Corwen** a gynhelir yn Neuadd Edeyrnion nos Iau - nos Sadwrn, Mai 7-9fed.

- Cynigir y cystadlaethau canlynol:
- **Perfformio drama un act Gymraeg agored**
 - **Perfformio drama un act gan actorion dan 30 oed**
 - **Perfformio drama un act gan actorion dan 18 oed**
 - **Cyflwyniad pum munud o hyd gan grŵp o ddysgwyr**
 - **Cyflwyno Monolog neu Ymgom bedwar munud o hyd, yn agored i bob oed**
 - **Ysgrifennu drama un act**

Bydd tlysau a chwpanau yn cael eu cyflwyno i actorion a chwmnïau gorau yn y gwahanol gategoriâu yn ogystal â gwobrau ariannol.

Beirniad y cystadlaethau llwyfan yw'r actor a'r darlithydd, Huw Garmon. Beirniaid y gystadleuaeth ysgrifennu drama un act yw Meinir a Gwion Lynch, Llangwm, Dylid anfon y gwaith i'r ysgrifennydd erbyn Ebrill 1.

Am fwy o fanylion neu ffurflen gais, (dyddiad cau dychwelyd ffurflen gais yw Mawrth 31), cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Nia Jones, Panrthedynog, Glyndyfrdwy, Corwen. LL21 9BN. Ffôn: 01490 430207. Ewch i'n Gweplyfr **Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch** am fwy o fanylion.

Yn gywir
Nia Jones (Ysg)



AMSERLEN NEWYDD S4C



Amserlen Newydd S4C

Mae S4C yn lawnsio amserlen newydd sbon – eich amserlen chi.

Rydyn ni wedi trafod a gwrando ar farn ein gwylwyr ac mae'r amserlen wedi ei llunio er mwyn cysoni rhaglenni newyddion ac operâu sebon, a chynnig cyfresi newydd cyffrous.

O 24 Chwefror ymlaen bydd modd i chi fwynhau:

- Newyddion nos Lun i Gwener am 7.30
- Pobol y Cwm nos Lun i Iau am 8.00 gyda rhifyn estynedig ar nos Fercher
- Rownd a Rownd nos Fawrth a Iau am 8.25
- Ffermio yn symud i 9.00 ar nos Lun
- Cyfresi cyfarwydd a newydd am 9.00 o nos Lun i nos Iau gan ddechrau gyda Corau Rhys Meirion, Ysgol ni: Maesincla, Cynefin a Jonathan.
- Chwaraeon byw ar nos Wener
- Rhaglen ychwanegol o Heno yn fyw ar Nos Sadwrn am 7.30 (gan ddechrau ar 8 Chwefror)

Wrth gysoni ein rhaglenni, rydym wedi gwneud y dewis yn hawdd i chi.

Mwynhewch yr arlwy!

Ysgol Dyffryn Ogwen

Ysgol Sy'n Annog

Mae'r ysgol yn falch iawn o allu cynnig cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion eto eleni trwy'r ddarpariaeth a geir yn 'Hafan Charlotte'. Mae'n ystafell bwrpasol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ar sawl agwedd o fywyd ysgol, personol a chymdeithasol.

Sefydlwyd 'Hafan Charlotte' ym mis Medi 2018 yn sgîl cefnogaeth ariannol sylweddol gan Ymddiriedolaeth Charlotte Speddy. Croesawyd rhieni Charlotte i'r ysgol i weld effaith y cyfraniad hwn ac i fynegi ein diolchgarwch ar ran y disgyblion a'r rhieni sydd wedi manteisio ar y ddarpariaeth yma.

Yn ôl adroddiad Estyn –

'Mae'r ystafelloedd cynhwysiant, fel 'Hafan Charlotte', yn darparu awyrgylch tawel ac anogol, ac mae gan yr ysgol raglenni cadarnhaol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol pob disgybl.'



Angela Speddy a Stephen Speddy gyda Miss Tracey Owen, Uwch Gymhorthydd Hafan Charlotte



Harry Prytherch a Llion Williams yn mwynhau eu hamser yn yr Hafan



Diolch am y rhodd hael o £300 gan GH James Cyf, cwmni sydd yn gweithio yn ardal Llanllechid ar hyn o bryd. Byddwn yn defnyddio'r arian ar gyfer datblygu adnoddau y 6ed dosbarth.

Canmoliaeth

Bu canmoliaeth mawr i ddisgyblion blynyddoedd 10,11,12,13 am eu hymroddiad ac aeddfedrwydd gydag arholiadau mewnol.

Mae Lili Evans, blwyddyn 11, wedi mynd ati o'i phen a'i phastwn ei hun, ac wedi llwyddo i gasglu £170 tuag at elusen Ymchwil Arennau. 'Rydym yn hynod falch o dy ymdrechion, Lili.

Ysgoloriaeth Prifysgol

Pob lwc i nifer fawr o ddisgyblion sydd wedi ymgeisio am Ysgoloriaethau Prifysgol.

Rhydychen

Llongyfarchiadau i Thalia Lichtenstein ar dderbyn cyfweiliad ym Mhrifysgol Rhydychen - pob lwc Thalia.

Ymweliad Blwyddyn 6

Bu holl ddisgyblion blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd yn yr ysgol am ddiwrnod yn profi amrywiaeth o wersi. Yr oedd yr athrawon o'r ysgolion cynradd yn hael iawn eu canmoliaeth i'r ddarpariaeth.

Taith Manceinion

Bu blynyddoedd 10-12 ar daith i Fanceinion i fynychu gweithdy barddoniaeth gyda'r adran Saesneg. 'Roedd siaradwyr enwog megis Gillian Clarke, Carol Ann Duffy, Owen Sheers yno yn darllen barddoniaeth, ateb cwestiynau ac yn trafod themâu a syniadau am iaith ac arddull.

Pantomeim

Bu holl ddisgyblion blwyddyn 7 yn gweld perfformiad o'r pantomeim 'Sleeping Beauty' yn Llandudno cyn gwyliau'r Nadolig. 'Roedd yn berfformiad lliwgar, bywiog a swntlyd, yn unol â thraddodiad y pantomeim Nadoligaidd, ac fe gafodd y disgyblion a'r aelodau o'r staff fore difyr iawn. Diolch i'r adran Saesneg am drefnu.

Penwythnos Glan-llyn

Treuliodd criw o flwyddyn 7 benwythnos gwerth chweil yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn. Yng nghwmni haul godidog mis Ionawr cafodd y disgyblion gyfle i fynd i'r afael â nifer o weithgareddau fel dringo, canwio, cwrs rhaffau uchel, nofio, a llu o bethau eraill. Rhaid canmol y disgyblion am eu hagwedd, ymddygiad a'u cwrteisi yn ystod y penwythnos. Roedd hi'n bleser bod yn eu cwmni nhw. Diolch yn ogystal i Urdd Eryri ac i Wersyll Glan-llyn am y croeso cynnes yno. Edrychwn ymlaen at gael mynd eto'r flwyddyn nesaf!

Traws Gwlad

Fe wnaeth nifer o ddisgyblion yn wych yn rasys traws gwlad ysgolion Arfon, ac mae'r canlynol wedi llwyddo i orffen yn yr 8 uchaf i fynd trwodd i gynrychioli ysgolion Arfon ym mhencampwriaeth Ysgolion Eryri.

Erin Basinger 4ydd (bl.7)

Emily Jones 6ed (bl.7)

Madeleine Sinfield, blwyddyn 8 - 1af

Boe Celyn Jones, blwyddyn 11 - 2ail

Rygbï

Llongyfarchiadau i Huw Davies sydd wedi bod yn chwarae i dîm dan 18 Sale Sharks er nad yw ond newydd gyrraedd 16 oed! Cafodd gêm arbennig yn erbyn Wasps yn y Ricoh Arena yn Coventry. Dymuniadau da hefyd i Huw, Elis Evans, Tomos Hughes a Leon Wild, sydd ar ganol cyfres o gemau i dîm RGC dan 16 yn erbyn y Gweilch, y Scarlets a'r Gleision.



Tomos, Elis, Huw a Leon

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dw i am droi'n ôl y tro hwn eto i'r ardal lle cefais fy ngeni a'm magu, sef Braichmelyn, a sôn yn arbennig am un o genod tai Gernant, sef Winnie, merch Griff a Dilys Hughes, 15 Gernant, a chwaer Hugh (a adawodd ei fro enedigol i ymuno â'r Llu Awyr ac sy'n byw yn Nottingham y dyddiau hyn). Dros y blynyddoedd, dw i wedi crybwyll enw Winnie o bryd i'w gilydd, gan dd'eud fel yr oedd hogan gyffredin o Gernant wedi priodi un o'r golffwyr mwyaf llwyddiannus ac enwocaf a ddaeth o Gymru erioed, sef Brian Huggett (cewch hanes ei yrfa ddisglair ar Google a Wikipedia). Pan fyddai Brian a Winnie yn dŵad ar eu hald i'r ardal, byddai plant Braichmelyn wrth eu bodd yn tyrru o gwmpas i edrych mewn edmygedd pur ei gar mawr, crand (Jaguar, mi gredaf) – byddwch yn casglu bod ceir, o unrhyw fath, yn betha' digon diarth i blant Braichmelyn yr adeg honno!

Gadawodd Winnie'r ardal wedi priodi efo Brian a chafodd y

ferch o Gernant deithio'r byd yn ei gwmni dros y blynyddoedd. Byddwn bob amser yn darllen am Brian ac yn cymryd diddordeb yn ei lwyddiant ond ni fu unrhyw gyswllt rhyngof i â nhw ... tan yn ddiweddar!

Un noson, digwyddodd Deilwen ddarllen enwau'r actorion ar ddiwedd 'Coronation Street' a sylwi ar enw'r ferch a chwaraeai ran ditectif yn y gyfres boblogaidd hon a thynnu fy sylw at ei henw – Sandra Huggett. 'Wn i ddim pa mor boblogaidd ydi'r cyfenw 'Huggett' ond dim ond un 'Huggett' oedd 'na i mi! A doedd dim rhaid meddwl yn hir cyn penderfynu y byddai'n rhaid canfod, rywsut neu'i gilydd, a oedd Sandra yn perthyn i Brian a Winnie. A thorri stori hir yn fyr, oedd, roedd Sandra yn ferch iddyn nhw!

A sut y cefais i wybod hynny? Wel, wedi holi a chwilio, a llwyddo i gael hyd i Brian, fo'i hun, mewn sgwrs dros y ffôn, dd'wedodd wrthyf am Sandra. Dywedodd y gallai hi anfon un neu ddau o luniau Winnie ataf a

rhoes ei chyfeiriad ebost i mi fel y gallwn gysylltu efo hi. Ac wedi gwneud hynny, anfonodd Sandra ddau lun ataf. Dyma'r cyntaf:



Winnie'n hogan fach yn eistedd ar y wal o flaen ei chartref yn Gernant

Wedi siarad efo Brian yr adeg honno, rhoddodd y ffôn i Winne a chawsom sgwrs ddifyr iawn ein dau – am oddeutu hanner awr – yn crwydro lonydd atgof a throi ymysg hen ffrindiau a chymdogion y dyddia' gynt. Mae Winnie'n cael *Llais Ogwan* bob

mis ers blynyddoedd ond dydi hi ddim yn gwybod – eto! – bod ei hanes hi a'i theulu yn fy ngolofn y tro hwn.

Mae Brian a Winnie wedi bod yn dŵad i Ddyffryn Ogwen yn aml i roi blodau ar fedd ei rhieni a deallaf y bydd Sandra hefyd yn yr ardal yr haf nesa' 'ma (ac mae hi, y dyddiau hyn, â rhan yn y gyfres deledu boblogaidd, 'Grantchester'). Edrychaf ymlaen at weld Winnie a Brian unwaith eto a chyfarfod Sandra a'i merch, Elsie, am y tro cyntaf.

A dof â'r ysgrif hon i ben gyda'r ail lun a dderbyniais oddi wrth Sandra.



Winnie'n ferch ifanc ddeniadol





Clwb criced a bowlïo Bethesda

Bob dydd lau 9.30yb, 4yp a 6yh

Ffoniwch Manny 07557532380

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau

Contractwyr i Wasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru

Sefydlwyd 1969

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

Capel Carmel Yr Ysgol Sul

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, y thema sydd wedi bod gennym yw 'Cartrefi'. Bu'r plant lleiaf yn gwneud modelau o dŷ lesu Grist, eu cartrefi nhw eu hunain, a'u haddoldy, sef Capel Carmel. Gwaith y plant hŷn oedd gwneud llun o du mewn a thu allan i'r Capel.

Yn ystod y tywydd oer ym mis Ionawr buom yn sôn hefyd am bwysigrwydd gofalu am adar mân drwy roi briwsion iddynt wrth ein drysau. Bu rhai o'r plant yn gwneud siapiau



adar bach lliwgar gyda gwlân ar ddull pom-pom. Dyma rai ohonynt gyda'u gwaith llaw amrywiol.

'Rydym fel plant ac athrawon yn anfon ein dymuniadau da i Elin o Llanllechid, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Gwellhad buan i ti, Elin.

Gŵyl Dewi Sant

Cofiwch am Wasanaeth Gŵyl Ddewi'r plant a'r bobl ieuainc ar fore Sul, Mawrth 1af am 10.30.o'r gloch. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni, ac aros i gael paned a chacen wedyn yn yr Ysgoldy.

Trefn Gwasanaethau

(am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)
Chwefror 23: Gweinidog.
Mawrth 01: Oedfa Gŵyl Ddewi yng ngofal yr Ysgol Sul a'r Clwb Dwylo Prysor (10.30yb).
Mawrth 01: Y Gweinidog (Cymun).
Mawrth 08: Parchg. Mererid Mair.
Mawrth 15: Miss Nerys Jackson.
Mawrth 22: Gweinidog.
Croeso cynnes iawn i bawb.
Ysgol Sul am 10.30.
Clwb Dwylo Prysor bob nos Wener am 6.30.

Newyddion

Cafwyd cryn dipyn o drafferth a llanastr ar ddechrau mis Ionawr oherwydd na ddaeth y casgliad ailgylchu ar y diwrnod arferol, ar adeg pan yr oedd y gwynt yn chwythu'n gryf. Diolchwn i'r cyngorydd sirol Dafydd Owen am helpu i glirio peth o'r llanastr ymhell o'i dŷ.

Da oedd gweld y bin stryd newydd yn Sgwâr Rachub wedi i'r hen un gael ei ddifrodi cyn y Nadolig.

Bu'n rhaid cau'r ysgol ar un achlysur oherwydd diffyg gwres.

Dymunwn yn dda i Brian Jones, Ystad Bron Arfon, wedi iddo gael llawdriniaeth ar ei goes, ac i Alis Bryn, Tanrallt, wedi llawdriniaeth ym Manceinion.

Mae trigolion yn cael eu siomi pan na fydd bws gwasanaeth disgwylidig Arriva'n cyrraedd ond yn ddiolchgar am amllder y gwasanaeth.

Cydymdeimlad

Gyda braw a dychryn y torrodd y newyddion am farwolaeth sydyn Melvin Griffiths, Plas Pistyll, Ffordd Llanllechid ar Ionawr 25ain. 62 mlwydd oed oedd Melvin ac yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ar Chwefror 4ydd. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Brenda â'r teulu oll. Cydymdeimlwn hefyd â Claire, Osian a'r plant o 14 Hen Barc, yn dilyn marwolaeth tad Claire yn ddiweddar.

Ysbyty

Gobeithio bod Mrs Margaret Owen, Tan y Garth, yn gwella wedi triniaeth i'w choes yn ysbyty Gobwen yn ystod mis Ionawr.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Daeth criw da ynghyd i wrando ar Mr Wyn Bowen Harries, yr actor enwog o'r Rhyl, yn sgwrsio am Gomin Llanllechid. Mae wedi byw yn yr ardal ers nifer helaeth o flynyddoedd, ac wedi gwneud gwaith ymchwil sylweddol yn y maes. Soniodd mai [er gwaetha'r enw], tiroedd preifat oedd y 'Tiroedd Comin', yn perthyn i stadau mawrion y Penrhyn, Coetmor a Chochwillan, ond bod y bobl gyffredin yn cael defnyddio rhai o'r tiroedd 'gwael' ar gyfer pori a.y.y.b. dan amodau llym a rheolau pendant. Roedd cyfyngu ar nifer y defaid oedd yn cael pori pob acer, hawliau torri mawn a.y.y.b, ac 'roedd yn rhaid cael goruchwyliaeth gyson ar un cyfnod yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er mwyn gofalu nad oedd y rheolau'n cael eu torri; crwydrai 15 cwnstabl ar hyd y tiroedd i gadw trefn!

Soniodd Mr Harries am draddodiadau'r mynydd, yn enwedig am y bywyd lliwgar, diddorol ac ychydig yn wyllt, efallai, a fodolai yma cyn dyfodiad crefydd ac arweinwyr crefyddol fel William Jones Abercaseg! Soniodd am Suliau Chwarelgoch, rhialtwch Parc Moch yn ogystal â 'Hob y Deri Dando'!

Diolch, Wyn, am y cyflwyniad diddorol, y dyfyniadau barddonol, a'r cyfle eto i ryfeddu at fawredd Huw Derfel!

COFIWCH am ein cyfarfod nesaf, [Chwefror 26], pan y bydd Mr. Gruff Ellis Williams yn dweud rhywfaint o hanes tafarn y 'Bull' Llanllechid.

CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID.
Nos Fercher, Chwefror 26
am 7 o'r gloch yn Festri
Capel Carmel.

**Hanes y 'Bull' [Llanllechid]
gan Mr Gruff Elis Williams**

CROESO CYNNES!

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythrau ac
unedau gwydr wedi chwythu

**18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB**

01248 713 369 neu 07813 455653

Y Dyddiadur toriadau (18)

Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)

Yn y bennod ddiwethaf adroddwyd fel y cafodd Twm, y melinydd, hwyl ar ben ei feistr, Wmffra Robaits, drwy lynu canhwylau ar gefn crancod a'u gollwng i gyfeiriad y môr wedi iddi nosi. Gwyddai Twm fod yr hen Wmffra yn credu mewn bwanod a chanhwylau corff ac ofergoelion o'r fath, ac oherwydd hynny ni fyddai'r meistr yn gallu cadw gwyliadwriaeth arno wedi iddi nosi. Felly, llwyddai Twm i ddianc am ychydig i fynd i'r dafarn cyn iddi gau a hynny'n ystod ei oriau gwaith. Fel y nodwyd eisoes ni ymyrrwyd fawr ddim ar ffurf na iaith y stori.

AELOD GYDA'R CALFINIAID oedd Wmffra Robaits ac yr oedd wedi cael cyfleusterau addysg da ac yn lled ymchwilgar yn yr Ysgrythurau. Eisteddai yn y Seiat y tu ôl i'r plant a phan gwestiynid hwy ar ôl dweud eu hadnodau hoffai eu helpu yn ddistaw pan fyddent mewn dyrysych. Y Parch Simon Fraser oedd yn gwrando'r

adnodau un noson a gofynnodd i ryw fachgen o'r enw Wil am enw arall ar Galfaria. Wyddai'r bachgen mo'r atebiad, a chlustfeiniodd beth oedd Wmffra Robaits yn sisial y tu cefn iddo. "Lle- y - ben - glog," ebai yn ddistaw bach. "Lle - ar - ben - cloc," meddai Wil bach dros y capel.

Yr arfer oedd i'r plant ddysgu adnod a rhyw air neilltuol ynddo o'r Beibl, a cheid cryn amrywiaeth yn yr adnodau a adroddid ond pan ofynnodd Mr Fraser i'r bobl o'r llawr am air erbyn yr wythnos wedyn, "Cenchrea" meddai'r hen Wmffra. Felly y bu, a phob plentyn yn adrodd yr un adnod yn y seiat nesaf.

Yr oedd ganddo gar a cheffyl ac unwaith roedd o wrth gasworks y Borth yn dod adref, a Griffith Jones, Tregarth yn dod o gyfeiriad Pont y Borth am Lanfair. Smociwr mawr oedd y pregethwr, a gelyn anghymodlawn i'r baco oedd Wmffra a eisteddai yn y car

"Wyt ti'n smocio rwan?" ebai'r hen Wmffra, "Nac ydwyf," meddai Griffith Jones yn ddidaro.

"Tyrd i fyny i'r car ynte," ebe'r llall.

Wrth iddo ddisgyn o'r car ym mhentref Llanfair gofynnodd yr hen frawd i Griffith Jones.

"Ers faint wyt ti wedi rhoi gora i smocio?"

"Ers rhyw ugian munud," meddai'r pregethwr gan ddianc am ei fywyd.

Yr elfen orau ynddo hwyrach oedd ei sêl dros addysg. Hoffai weled plant yn dysgu a'r

wobr gyntaf erioed gafodd Syr John Morris Jones am ysgrifennu oedd honno gafodd gan Wmffra Robaits, sef chwe cheiniog. Ceiniog fyddai y tâl am bopeth ganddo, ond cafodd ei blesio gan y gwaith hwn i'r fath raddau nes synodd pawb iddo roi pisin chwech iddo. Unarddeg oed oedd Syr John yr adeg honno (1875) a thestun Beiblaidd roddwyd iddo i ysgrifennu amdano. Cofiaf hyd heddiw am ei syndod mawr yn cael gwobr o chwech gan yr hen Wmffra; ond chwi wyddoch erbyn hyn fod yr hen frawd wedi cael addysg dda ym more ei oes ond ei fod yn od ar bawb a phopeth. Gweithiodd fel cawr dros sefydlu Bwrdd Ysgol yma yn 1871 ac yr oedd yn un o'r pum aelod cyntaf.

'Pwllffanogle' oedd yr enw ar ei droliau - nid 'Pwllfanog.*' (Dyna lle'r oedd Syr Kyffin Williams yn byw) Pyllau hanog ydy'r enw yng Nghronicleau'r Cistercian Abbey, a dyna'r cyfeiriad cyntaf at y lle welais i eto. Paham yn arferai ef yr enw uchod ni allaf ddyfalu oherwydd sillebu oedd ei brif hobi ar hyd ei oes a rhoes gannoedd o ddimeiau i blant yr ardal am sbelio geiriau yn gywir.

Cafodd angladd anrhydeddus, ac wedi'r gwasanaeth ar lan y bedd, ac wedi gorchuddio'r arch â phridd, gwelais y clochyd yn tynnu jou o faco o'i geg ac yn ei daflu i'r pridd gan ddweud, "Mi gladdwn ni'r ddau 'run dydd boys."

Mwy o hanesion o'r Dyddiadur Toriadau y tro nesaf.

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Yn ein cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd dechreuwyd trwy longyfarch Hywel Williams ar ei lwyddiant yn cael ei ethol unwaith eto fel ein Haelod Seneddol, gyda mwyafrif sylweddol o bron i dair mil o bleidleisiau.

Gyda throad y flwyddyn daeth y gwyntoedd mawr a welodd ein biniau sbwriel ac ail gylchu yn cael eu hyrddio o amgylch a bu raid i gasglwyr Cyngor Sir Gwynedd roi'r gorau i'w gwaith oherwydd iechyd a diogelwch. Bu ein Cynghorwyr Sir yn gweithio'n galed yn cadw llygad ar y sefyllfa gan anfon negeseuon a swnian er mwyn

cael ail a thrydydd casgliad.

Nododd y Cyng. Paul

Rowlinson iddo drafod diogelwch y ffordd gyda Phennaeth Ysgol Llanllechid a rhai or disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mynd i'r ysgol mewn ceir, gan roi pwysau ar faes parcio'r ysgol yn y bore ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol, ac yn creu llygredd yn yr aer sy'n gallu bod yn niweidiol i iechyd. Mae rhai plant hefyd yn colli allan ar y manteision sydd ar gael petaen nhw'n cerdded neu feicio i'r ysgol. Buasai gwneud y ffordd i'r ysgol yn fwy diogel yn annog mwy o blant i gerdded, ac maent wedi cyfarfod â chynrhychiolydd

o Sustran i drafod sut i wneud

hyn. Mae'r disgyblion yn

bwriadu cyfarfod â Paul eto gyda swyddog o Adran Briffyrdd y Sir i gyflwyno syniadau ar sut i wella'r ffordd ac annog mwy o blant i gerdded neu feicio i'r ysgol.

Mae'r broblem parcio i fyny Nant Ffrancon yn dal i flino trigolion. Mae'r Cyng. Dafydd Meurig wedi bod yn llythyr gyda'r Cynulliad, sydd dan arweinyddiaeth Llafur, ers 2016 ynglŷn â'r broblem hon, gan anfon cynlluniau ar sut i wella'r sefyllfa, ond heb gael fawr o sylw. Mae'r Cyng Rheinalt Puw wedi gwahodd Ken Skates, sef

Ysg. Trafnidiaeth y Cynulliad

i weld y sefyllfa drosto'i hun.

Anfonwyd copi o'r cynllun iddo, ond nid ydyw wedi bod â'r cwrteisi i'w gydnabod.

Gobeithio y bydd gennym fwy i'w adrodd ar y mater hwn yn fuan. Gobeithiwn gynnal cyfarfod cyhoeddus yn fuan, gan fod amser yn prinhaus wrth bod y tymor twristiaeth yn brysur ddod yn nêd.

Cynhelir ein Cyfarfod Blyneddol yng Nghanolfan Cefnfaes ar Chwefror 25ain am 7:30. Bydd ein bore coffi cyntaf o'r flwyddyn hefyd yng Nghefnfaes fore Sadwrn, Mawrth 7fed.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Blwyddyn Newydd Dda
Mae mis cynta'r flwyddyn wedi mynd heibio'n barod, a phawb wedi hen anghofio am gynnwrf y Nadolig. Dymunwn iechyd da, llwyddiant a dedwyddwch i bawb yn yr ardal ar gyfer y misoedd a ddaw.

Cydymdeimlo
Yn anffodus, ni chychwynnodd 2020 yn ddedwydd i bawb.
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Robert Evans, Sŵn yr Ogwen. Bu farw ei annwyl briod, Mary, ar y 5ed o Ionawr, yn dilyn gwaeledd byr ac annisgwyl.

Cydymdeimlwn hefyd â Stuart a Tanya a'r teulu, 2 Bro Emrys. Bu farw John Thompson, tad Stuart, yn Ysbyty Gwynedd ar 28ain o Ionawr. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol yn Eglwys St. Cross ar Chwefror 7ed.

Gwellhad Buan
Mae nifer o drigolion Talybont wedi treulio ychydig o amser yn yr ysbyty, neu wedi bod yn sâl yn eu cartrefi. I bawb a fu o dan y don, dymunwn wellhad llwyr a buan ichi.

Adre 'nôl
Roedd hi'n braf gweld ambiwlans yn aros yn Dolhelyg ddydd lau diwethaf, ac Idris Thomas yn cael ei rowlio yn ei gadair olwyn i lawr y

ramp ac i mewn drwy ddrws rhif 16. Treuliodd wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, yn dilyn codwm cas ar y pafin y tu allan i'w gartref. Mae'n ceisio ei orau glas i gadw ei annibyniaeth, a chyda chymorth y teulu a'r gofalfwyr, gobeithio'n wir y gwnaiff lwyddo. Pob lwc, Idris!

Babis
Hanes dau fabi newydd sydd gennym y mis yma! Ganwyd Amber Rose i Bethany a'i chymar, Josh, 5½mis yn ôl. Gwelais hi, a chlywed amdani, am y tro cyntaf yr wythnos ddiwethaf. Mae hi'n ddigon o ryfeddod! Wýres gyntaf yw Amber i Michaela a John Roberts, Bro Emrys, ac yn or-wýres gyntaf i Shelagh Chadwick, 1, Cae Bach. Cafodd Bethany ei magu yn Nhalybont ond, ar hyn o bryd, mae'r teulu bach wedi ymgartrefu ym Mangor.

Cafodd Deion Wyn, mab bach Heather a Martin, 25 Bro Emrys, ei eni ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd. Mae Joel yn hoffi ei frawd newydd, a Freya, eu chwaer fawr, yn siwr o fod yn help garw efo'r hogiau bach. Pob bendith i'r plantos ac i'r teuluoedd oll.

O'r Amerig i Dalybont
Cafodd Bill Murell, 4. Dolhelyg, ymweliad byr gan ei ferch a'r teulu o'r Unol Daleithiau, y mis diwethaf. 'Roedd wrth ei fodd yn cael gweld ei ddwy wyres fach.

Hogan Gerddorol
Llongyfarchiadau i Beca Nia, 36 Bro Emrys ar ennill mynediad i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Mae ei gallu ar yr obo yn hysbys i bawb ohonom erbyn hyn.

Mwynhá dy amser efo'r Gerddorfa, Beca. Mae'n gyfle gwych iti.

Capel Bethlehem
Oedfaon
Chwefror
23 Gweinidog.

Mawrth
01 Parchg. Emlyn Richards, Cemaes.
08 Gweinidog.
15 Parchg. John Lewis Jones, Llandudno.
22 Gweinidog.
29 Parchg. Cledwyn Williams, Bangor.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Bwrlwm Bethlehem
Cynhelir y cyfarfod nesaf brynhawn lau, 20 Chwefror am 2.15, ac yna bob bythefnos. Croeso i chi alw heibio!

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

EGLWYS ST. CROSS
Gwasanaethau'r Sul
Pob gwasanaeth am 11.00 a.m.

Cydymdeimlo
Roedd yn chwith gennym glywed bod Mollie Jones, Bryn Hafod y Wern, Llanllechid, wedi marw ar Ionawr 20fed yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, yn 89 oed. Roedd hi wedi bod yn ôl ac ymlaen rhwng Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri, a Phlas Ogwen sawl gwaith yn ystod y misoedd diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Keith a Chris a holl deulu Mollie yn eu colled.

Cafodd Mollie ei magu yn Stoke, lle bu hi'n helpu ei thad efo'i fusnes llefrith, ac ar ôl gadael yr ysgol, un

o'i swyddi oedd efo cwmni crochenwaith Meakin. Yn ystod un haf, daeth hi a'i theulu ar wyliau i'r ardal hon, lle bu iddi hi a Ken (Ken Bryn) gyfarfod, ac phriodasant ym 1952. 'Roedd Mollie a Ken yn aelodau ffyddlon o Eglwys St. Llechid, ac roedd Ken hefyd yn cadw mynwent St. Cross yn daclus, hyd nes iddo farw yn sydyn ym 2002. Ar ôl i eglwys Llan gau, ymunodd Mollie ag Eglwys St Cross.

Dynes annwyl, cynnes a charedig oedd Mollie, yn barod bob amser i groesawu ymwelwyr i'w chartref. Gweithiodd yn galed iawn gydol ei hoes ar fferm Bryn Hafod y Wern - yn helpu efo'r gwartheg, tyfu a gwerthu llysiau, yn magu Keith a Chris, a hefyd helpu'r

plant yn ysgol Llandygai. Ymunodd â'r WI, ac yn ôl pob sôn bu'n chwarae pêl droed efo tîm o ferched! Cynhaliwyd angladd Mollie yn Eglwys St. Cross bnawn ddydd lau, 30ain Ionawr, dan ofal y Parchedig Lloyd Jones, Rheithor Clynnog a Deon Ardal (gan nad oes gennym Ficer plwyf ar hyn o bryd). Mr Wynn Williams oedd wrth yr organ, a daeth cynulleidfadaeilwng i ffarwelio â Mollie a'i rhoi i orffwys yn y fynwent efo Ken.

Boreau Coffi
Mae'r Boreau Coffi misol wedi ail-ddechrau ar y dydd Mawrth cyntaf yn y mis. Croeso bob amser i chi ymuno â ni am sgwrs a phaned (a raffl!) o 10.30 ymlaen.

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR
Llun - wedi cau
Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00
Sadwrn 15:30 - 00:00
Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



Ysgol Llandygai



Sialens ddarllen
Bu disgyblion dosbarth Gwawr (Blwyddyn 2 a 3) yn brysur yn cymryd rhan mewn sialens ddarllen yn ddiweddar, sef 'Pump am bump am bump', ac mae llawer o'r disgyblion wedi llwyddo drwy ddarllen bob nos am 5 munud. Da iawn chi blant os!

Gwersi nofo
Mae dosbarth Gwawr yn llawn cyffro ers cael cychwyn ar eu gwersi nofo am y tro cyntaf ym mlwyddyn 2. Pob hwyl i chi am weddill y tymor.

Christingle
Daeth ein ffrindiau o'r Gadeirlan a Mrs Tracy Richardson draw i'r ysgol er mwyn gwneud Christingle gyda disgyblion yr ysgol gyfan. Cafodd y disgyblion brynhawn bendigedig yn creu a dysgu am bwysigrwydd y Christingle. Diolch yn fawr iawn i chi am eich amser.

Diolch
Hoffem ddiolch i Mrs Gwenda Williams o'r Archifdy yng Nghaernarfon am ddod draw i'r ysgol i ddosbarth Tirion am brynhawn i sôn am yr Ail Ryfel Byd ym Mangor, ac i ddangos arteffactau o'r cyfnod i ni. Cafodd y disgyblion brynhawn diddorol dros ben.



Ffarwelio
Roedd hi'n ddiwrnod trist acw yn yr ysgol wrth ffarwelio ag aelod gwerthfawr o'r ysgol, gan iddi gael swydd newydd. Bu Mrs Einir yn gweithio yn yr ysgol ers 19 o flynyddoedd, ac mae gan nifer fawr o blant a staff ar hyd y blynyddoedd atgofion melys o'u hamser acw. Hoffai bawb yn yr ysgol dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd.

Diwrnod Crefyddau'r byd
Bu disgyblion yr ysgol yn gyfrifol am grefydd er mwyn dathlu diwrnod Crefyddau'r byd eleni. Buont yn brysur yn mwynhau amryw o weithgareddau creadigol yn ymwneud â'u crefydd. Cafodd ddosbarth Tirion brynhawn rhagorol yng nghwmni aelod o'r gymuned, Kanu. Daeth i siarad gyda'r disgyblion am Islam, yn sgîl eu gwaith ar gyfer y diwrnod. 'Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am roi ei hamser i ddod atom.



Marchnad Ogwen

Dewch yn llw! Sawl gwaith mae'r dywediad yna wedi ei grybwyll tybed! Yn wir, byddai Stondinwyr Marchnad Ogwen wrth eu boddau yn gweld wynebaw newydd rhai o drigolion Pesda a'r pentrefi cyfagos yn 'dod yn llw' i gefnogi'r Farchnad a'r cynnyrch lleol. Os nad ydych wedi bod yn y Farchnad o'r blaen, mae croeso cynnes i chi i ddod i gael golwg o gwmpas y stondinau, paned a thamaid yng nghaffi'r Neuadd, a sgwrs efo hwn a llall. Ydi, mae bore Sadwrn Marchnad yn gymunedol hapus braf ac yn bwysig i'r ardal gyfan.

Chwi ddysgwyr, mae croeso a chyfle i ymarfer y Gymraeg yn y Farchnad bob mis - beth bynnag fo'ch safon - rhugl, neu ar gychwyn y daith.

Croeso i Sophie Hughes gyda'i stodin 'Body Shop at Home', sydd wedi ymuno'n barhaol gyda ni. 'Rydym yn parhau i fod eisiau stondinau bara a chig.

Mae posib dilyn hynt a helynt (wel gobeithio dim helynt)! y Farchnad ar wefan Ogwen360 erbyn hyn.

Emlyn Williams sy'n cynnal y Stodin Elusen ym mis Mawrth. Mae Emlyn yn creu bocsys nythu, clociau a nwyddau pren ei hun. Bydd yr elw yn mynd i ymchwil haeddiannol iawn, sef Muscular Sclerosis.

Mis Awst yw'r mis nesaf sy'n rhydd - yn wir, yr unig fis rhydd eleni!

'Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at Chris Jones, fferm Bryn, Llanllechid, sydd wedi colli ei fam yn ddiweddar. Mae Chris yn Llywydd Anrhydeddus y Farchnad, ac yn gefnogol iawn adeg Sioe Dyffryn Ogwen. 'Rydym yn meddwl amdanat Chris.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar facebook (sydd yn gyfredol).

Stodin y mis
Dyma stodin Colette Price o Chwarel Goch, Sling. Felly, yn naturiol, 'Cynnyrch Chwarel Goch' yw enw'r stodin hon. Mae Colette yn tyfu'r ffrwythau a llysiau yn Chwarel Goch a hi sy'n creu diodydd, jam, siytni ac ati gyda'r cynnyrch - lleol go iawn ynte! Mae cyfle hefyd i brynu mêl lleol o fferm Dinas ar ei stodin.



Newyddion o BARTNERIAETH OGWEN



Prentis Datblygu Cymunedol

Dechreuodd Fflur Wyn fel Prentis Datblygu Cymunedol i Bartneriaeth Ogwen ddechrau lonawr. Bydd Fflur yn gweithio yn bennaf o Siop Ogwen, ond bydd hefyd yn gweithio ar ymgyrchoedd i gefnogi ffyniant y Stryd Fawr a denu mwy o gwsmeriaid i'r siopau lleol. Ariennir swydd Fflur drwy gefnogaeth y Rank Foundation a'r Loteri Cenedlaethol, ac mae'n un o 9 prentis cymunedol sydd wedi'u penodi ar draws Cymru fel rhan o brosiect 'Llechi, Glo a Chefn Gwlad'. Mae'r prentisiaid hyn yn cael eu datblygu i fod yn arweinwyr cymunedol, a bydd 9 arall yn cael eu penodi yn 2021 a 2022. Mae'n gynllun arloesol fydd, gobeithio, yn helpu'r Bartneriaeth i ddatblygu mwy o brosiectau cymunedol, ond yn bwysicach, mae'n gyfle i gefnogi a meithrin talent newydd. Mae Fflur wedi byw ym Methesda ar hyd ei hoes, ac mae'n edrych ymlaen i ddatblygu Siop Ogwen, a chydweithio efo busnesau a mudiadau lleol. Meddai Fflur:

"Dwi'n edrych ymlaen i fod yn rhan o'r prosiect yma gan wneud gwaith datblygu cymunedol yn fy mro. Mae'n braf cael bod yn rhan o dîm Partneriaeth Ogwen, a chael cyfle i ddatblygu sgiliau newydd fel rhan o rwydwaith Llechi, Glo a Chefn Gwlad."

Mae Fflur yn gweithio'n brysur i gefnogi gwirfoddolwyr Siop Ogwen ar hyn o bryd, ac wrthi'n trefnu digwyddiad i drafod syniadau am ddatblygiad y siop yn y dyfodol.



defnyddiwr wedi cofrestru yn y deufis cyntaf (ewch i <https://gwynedd.book.co-wheels.org.uk/auth/register> gan ddefnyddio'r cod hyrwyddo **AGW20**) ac yn teithio hyd a lled y wlad ynddi. Ein bwriad yn awr yw annog darllenwyr y Llais i ymuno a'r cynllun, a chynnig eu hunain fel gyrrwyr gwirfoddol. Cynllun peilot yw hwn gyda Carwen, ac 'rydym yn awyddus i ganfod hyd a lled y diddordeb mewn cynnig cludiant cymunedol. Gallai hynny olygu mynd ag unigolion i apwyntiadau meddygol, mynd i'r theatr, gwylio chwaraeon neu mynd am dro i un o atyniadau'r ardal - beth bynnag sy'n tanio'r dychymyg.

Cysylltwch â ni i drafod eich syniadau - byddwn yn falch iawn o glywed gennych!

Am fwy o fanylion ar sut i wirfoddoli neu logi'r car trydan cysylltwch â swyddfa Partneriaeth Ogwen ar 01248 602131 neu huw@ogwen.org

Ogwen: " Mae wedi bod yn ardderchog cael 'pop-up' m-sparc acw. 'Rydan ni wedi gweld awch a brwdfrydedd pobl o bob oedran ac o sawl cymuned o fewn y dyffryn i ddysgu am, a defnyddio technoleg o'r safon uchaf. Mae'r peilot hwn wedi dangos y potensial anhygoel sydd gennym i ddatblygu'r math yma o waith, a rhannu adnoddau yn y dyffryn. Dymunwn yn dda iawn i m-sparc wrth iddynt symud ymlaen i leoliad nesaf eu taith ym Motwnnog".

Canolfan Cefnfaes

Y mae trosglwyddiad Cefnfaes i Bartneriaeth Ogwen bron wedi'i gwblhau, ac yn y cyfamser y mae trafodaethau yn parhau gyda darpar bartneriaid a defnyddwyr. Mae syniadau diddorol am y defnydd yn cael eu trafod ond mae angen eich barn chi bobl Dyffryn Ogwen. Defnyddiwch y ddolen yma i lenwi'r holiadur ar y we - www.surveymonkey.co.uk/r/XCD2PWT neu dilynwch y ddolen o'n cyfryngau cymdeithasol os gwelwch yn dda, neu galwch i mewn i Swyddfa Partneriaeth Ogwen am gopi caled. Yn ogystal fe fydd diwrnod 'galw i mewn' yn cael ei drefnu yng Nghefnfaes yn yr wythnosau nesaf i chi gael mynegi eich barn ar y syniadau - bydd y diwrnod yn cael ei hysbysebu yn eang pan fydd y dyddiad wedi'i gadarnhau.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Cynan Jones, post@ogwen.org 01248 602131.



Carwen y Car Cynladwy

Mae trigolion y fro wedi dod i adnabod Carwen y Car Trydan Cymunedol yn dda iawn dros y tri mis diwethaf, ac wedi teithio bron i 7,000 o filltiroedd ar drydan glân, heb unrhyw allyriadau carbon niweidiol.

Prosiect sy'n cael ei gefnogi tan fis Tachwedd gan Arloesi Gwynedd Wledig/ LEADER ydyw, ac mae sawl un wedi gwneud cryn ddefnydd ohoni eisioes. Mae 26

Dyffryn Gwyrdd

Mae Hwb y Dyffryn Gwyrdd bellach wedi hen ennill ei blwyf yn yr hen Fferyllfa, gyda bron i 400 o drigolion wedi galw i mewn am gyngor ar faterion yn amrywio o'r amgylcheddol, i holi am gerdyn bws, ac i wybodaeth am effeithlonrwydd ynni. Mae gwaith y Dyffryn Gwyrdd hefyd yn ymestyn allan i'r gymuned gydag ymweliadau ag ysgolion lleol a grwpiau megis Ffermwyr Ifanc, Cyngorau Cymuned a'r Afancod.

Cyflwynwyd cais sylweddol i gronfa'r Loteri Wledig am gynllun tair blynedd yn ôl yn yr hydref, ac 'rydym yn disgwyl canlyniad ganddynt erbyn ddiwedd mis Chwefror - gobeithiwn yn fawr y byddwn yn gallu rhannu newyddio da yn rhifyn nesa'r Llais!

m-sparc

Daeth cyfnod 'Gofod Gwneud' y parc gwyddoniaeth i ben ar ddiwedd lonawr, a hynny ar ol tri mis prysur a bywiog tu hwnt. Mae sawl unigolyn a grŵp wedi manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r cyfarpar: argraffydd 3D, gweisg mygiau, torrwr laser ac ati. Dywedodd Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth

MODURDY
FFRYDLAS

Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

600723
Ffacs: 605068

CROESAIR

AR DRAWS

- 1 Prifio (4)
- 3 Pesychu (4)
- 8 O'i sen yn rhoi barn anheg am rhywun (7)
- 9 'Bawb ag ----- glân'. (emyn enwog 'l bob un...') (5)
- 10 Terfyn, ble mae tiroedd yn cyfarfod (5)
- 11 Symudiad neidr efallai (7)
- 13 Codiad haul (6,5)
- 16 Rhoi arian i wneud elw (7)
- 18 'Amdani', drama deledu am rygbi ----- (Bethan Gwanas 1999) (5)
- 19 Prif fwyd y panda (5)
- 21 Dyrys yw'r cariad i un o'r Dwyrain Canol (7)
- 22 Gwywedig a chrebachlyd (4)
- 23 Yma mae'r olaf (2,2)

I LAWR

- 1 Cwrs a symudiad amser, ni all neb ei rwystro (6)
- 2 Ystafelloedd y capeli (9)
- 3 Ôl gwisgo, fel ar ddillad (5)
- 4 Crefftwr haearn (3)
- 5 Pethau'n neiwd yn raddol, fel y rhod -- ---- (2,4)
- 6 Cerdded mewn tyrfa i dynnu sylw (11)
- 7 Mae 'deuddeg abad yn y gro' yn gwneud hyn yn Ystrad Fflur yn ôl y bardd (4)
- 12 Eis i'r waun yn aml er y baglu, - teithiau braf (9)
- 14 Aros yn nhŵr indiad ar y paith am i'w wg ei ddrysu (6)
- 15 Y ci defaid sy'n 'hel - ---- diadell' meddai'r englynwr (1,5)
- 16 '---- clwt', tafodieithol am rywun ofnus a llwfr (4)
- 17 'Hon yw fy ----- i', o'r Mabinogion mae'n siwr (5)
- 20 Fedrwc'h chi ei ddringo a mynd drosto wrth hanner sibrwd ? (3)

ATEBION CROESAIR IONAWR 2020

AR DRAWS 1 Dacw, 3 Drewllyd, 8 Afrosgo, 9 Gofyn, 10 Yfory, 11 Byrbryd, 12 Gwenyn Meirch, 17 Creigle, 19 Ymbil, 21 Ar Glo, 22 Trysori, 23 Ninnau I, 24 Unig

I LAWR 1 Dialydd, 2 Cargo, 3 Dros Ben Llestri, 4 Esgor, 5 Llafurwr, 6 Dynodi, 7 Esgyrn, 13 Wreigan, 14 Emynydd, 15 Wcrain, 16 Cleiog, 18 Glofa, 20 Brown
Yr unig gamgymeriadau yng nghroesair Ionawr oedd 'Ar Gau' yn lle 'Ar Glo' (21 Ar Draws), a 'Geuaf' yn hytrach na 'Glofa' (18 I Lawr).

Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion hollol gywir: Iona Williams, Llanddulas; Elizabeth Evans, Caerhun; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Jones,

1		2						3		4		
				5		6						7
8								9				
10						11				12		
	13							14				
												15
16				17				18				
19		20				21						
	22							23				

Jean Hughes, Talybont; Dilys A. Pritchard-Jones, Margaret Williams, Abererch; Gaynor Elis-Williams, Gwen Evans, Rita Bullock, Bethesda; Adrian Poulton, Pentir; Doris Shaw, Bangor; Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys Wyn Griffith, Abergele; M. A. Jones, Rachub; Dilys Parry, Rhiwlas.

Ond yr un sy'n mynd â'r clod a'r wob'r y mis yma ydi Barbara Jones, 1 Dolhelyg, Talybont, Bangor, Gwynedd. Llongyfarchiadau calonnog i chi.

Atebion erbyn **Mawrth 4**, 2020, fan bellaf, i **'Croesair Chwefror'**, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 4 Mawrth, 2020 i 'Croesair Chwefror'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

Eglwys St. Ann a St. Mair
Cynhelir Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30y.b. Croeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau.
Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd a gobeithiwn y caiff pawb wellhâd buan.
Cofiwch gysylltu ag un o aelodau'r Eglwys os am gael Cymun Cartref.



Amser ni

A oes ganddoch ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda plant anabl a'u teuluoedd?

NEU

A oes ganddoch ddiddordeb rhoi egwyl fer i blentyn anabl dros dro?

(01286) 674 686

AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw'r



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen Bethesda
Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Nyth y Gân

Hen Longwr Ofergoelus
(seiliedig ar 'Ofnadwy Nos', nofel T. Llew Jones)

Hwyllo wnaeth y 'Royal Charter'
O Awstralia gyda'i stôr,
Ac aderyn fu'n ei dilyn –
Albatros uwch tonnau'r môr.
Cynnwrf grewyr 'mysg y llongwyr,
Mawr eu cyffro hwy a'u stw.
Gyda bwa saeth fe'i saethwyd
A diflannodd yn y dŵ.

Ail aderyn ddaeth o rywle
A gweld abwyd wrth ryw lein
A osodwyd yno'n daclus
Yn ddiniwed ac mor ffein.
Llyncodd yr aderyn hwnnw'r
Cyfan welodd ar ei daith,
Ac ar fwrdd y llong fe'i tynnwyd
Yno i dderbyn mwy o graith.

Lloerig oedd 'r adenog druan
Ac yn amlwg mewn poen mawr;
Torrwyd pen y creadur yno,
Llifodd gwaed ar hyd y llawr.
Tra bo'r morwyr wrthi'n sgwrio
Bwrdd y llong, ei hyd a'i led,
Cawsant rybudd gan hen longwr –
Mewn ofergoel roedd ei gred.

Dwedodd wrthynt mewn tawelwch
Na chaent wared fyth â'r gwaed
Nes câ'r albatros bob mymryn
O'r hyn lifodd dan eu traed.
Drylliwyd hi, y 'Royal Charter',
Gerllaw Moelfre'n ddarnau mân;
Boddwyd pedwar cant mewn arswyd,
Golchwyd yno'i bwrdd yn lân.
Dafydd Morris

Pioden
Y cnaf ym mhob cynefin; – y llofrudd
Llwr â llym gyflin;
Y prae yw'r adar mân prin,
A gwae oer yw'r lladd gerwin.

Moel Faban mewn Niwl
Gwlanen o niwlen lenwodd – anialdir,
A phob gweld a bylodd;
I lwydaidd niwl gwlad ddi-nodd
Y foel unig ddi-flannodd.

Rhosyn
Daw'r ias o weld y rhosyn – a'i harddwch
Yng ngerddi sawl lle cyn;
Mwyn yn awr yw'r mannau hyn,
Yn oludog mewn blodyn.

Ysgawen yn y Gaeaf
Yn brudd daeth angau i bren
Â'i liwiau llwm, aflawen;
Angau'r bedd yn byseddu
Celain glyn a dibyn du.
Ei bryf sy'n falltod ar bren,
Ias gaeaf ar ysgawen
Fu ddoe â'i throed fel hoeden
Yn ffair ysgafnder ei phen
Â'i harddwch yn yr hwyrddydd
Yn raen digrychni ar rudd;
Rubanau gwinau'n gaenen,
Ffrwyth llaith a pherffaith ei phen.
Yn glir daeth awr galaru
Yn fwlch rhyngof a'r cof cu;
Agos ei garw agwedd
Yng nghysgod bargod y bedd.
Daeth crino a huno hir
Â malltod i bob milltir,
Ond i fyd y difodi
Â'i dir brau daw llawnder bri.

Goronwy Wyn Owen

Ymdrochwyr
(darlun gan Henry Scott Tuke, 1858-1929)



Llaw'n haul yw'r llun a welaf,
Ennyd o hen Orffennaf
Yn ei rwysg, penllanw'r haf.

Haf pell o nofio pyllau
'R eigion, fel y gwna'r hogiau
Eofn hyn; haf i'w fwynhau.

Mwynhânt, hawliant yr heli,
Plymiant a llamant i'r lli'
Cynnes, yn llanciau heini,

Heinied yn eu Heden
Loyw, oleulas, lawen
Ag Adda Hardd yr Ardd wen.

Aeth heulwen y gorffennol:
O'r nofwyr hanner-nefol
Yn y llun, 'does 'run ar ôl.

Yn ôl rhaid y ddynol ryw
Aeth pob llanc ifanc, hyfyw
Hwnt i'w fedd: ond byddant fyw,

Byw, tra bo'r llun dymunol
Hwn i'w weld, gan ddwyn yn ôl
Eu holl anian penllanwol.

Howard Huws

Y CLWB RYGBI

Mae'n bosibl bod nifer o bobl yr ardal wedi gweld, neu wedi bod i mewn yn y clwb rygbi newydd sydd ar gaeau Dôl Ddafydd.

Mae llawer wedi bod yn gwylio gemau ar y 'balconi' sydd ar y llawr cyntaf ac wedi mwynhau gweld golwg newydd ar gêm o rygbi.

Yr hyn mae llawer heb sylweddoli yw bod y clwb cymdeithasol newydd wedi'i osod ar ben y stafelloedd newid a adeiladwyd yn nawdegau cynnar y ganrif ddiwethaf.

'Does dim llawer wedi newid yn yr hen adeilad yma, ac mae blynyddoedd o ddefnydd wedi gadael eu hôl erbyn hyn.

Penderfynwyd yn ddiweddar bod yr amser wedi dod i adnewyddu'r stafelloedd newydd er budd defnyddwyr y dyfodol.

Oherwydd statws y clwb fel adnodd i'r gymuned, penderfynodd Undeb Rygbi Cymru gyfrannu at y gost o wneud hyn ac mae'r gwaith wedi ei gwblhau erbyn hyn.

Am yr un rheswm, penderfynodd Llywodraeth Cymru roi grant i'r clwb i wella'r maes parcio, drwy osod goleuadau newydd, tar-macio a pharatoi llwybr cerdded pwrpasol i lawr y ffordd at ddrws y clwb. Bydd y gwaith yma'n cael ei gwblhau cyn bo hir.

Gan fod yr adeilad newydd yn effeithlon o ran defnyddio ynni, penderfynodd Heuldro Ogwen gynnis gosod paneli solar ar do'r adeilad er mwyn cynhyrchu trydan cynaliadwy. Mae'r gwaith yma ar fin cychwyn.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r safle yn parhau, ac mae'r rhan fwyaf o'r diolch yn ddyledus i Wil Sandison, sydd wedi bod yn brysur iawn yn gwneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau o bob math.

Mae ymarferion pêl-droed oedolion a phlant Teigrod Ogwen yn digwydd ar y



caeau hefyd ac mae tîm dynion y Teigrod yn chwarae eu gemau cartref ar Ddôl Ddafydd.

Mae mudiad **"parkrun"** yn gobeithio cychwyn gweithgareddau ar ddechrau Ebrill eleni. Bydd cyfle i bawb gymryd rhan mewn taith o'r clwb ar hyd Lôn Las Ogwen i Dregarth ac yn ôl – pellter o 5km (tua 3 milltir). Nid râs fydd hon – mae croeso i chi redeg, loncian neu gerdded yn ôl eich dewis. Dyma ffordd gymdeithasol i wella eich lefelau ffithrwydd cyffredinol.

Mae ymarferion a gemau rygbi'n parhau wrth gwrs, ac mae croeso i bawb i ddod i lawr i Ddôl Ddafydd i gymryd rhan, gwylio a defnyddio cyfleusterau ein clwb rygbi cymunedol unigryw.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau Mis Ionawr cynhaliwyd y cyfarfod deufisol yng Nghanolfan Cefnfaes ac adroddwyd bod nifer sylweddol o bobl wedi ymaelodi â'r gangen yn ddiweddar. Etholwyd Gerry Jenson, Tregarth yn is-gadeirydd.

Cafwyd adroddiadau am Blaid Lafur Arfon (e.e. y cyfle i enwebu arweinydd ac is-arweinydd i Blaid Lafur Prydain), Llywodraeth Cymru (e.e. y mae Cymru'n drydydd yn y byd ar gyfer ail gylchu o'r tai) ac y mae cardiau bws yn gyfrifol am 47% o'r teithiau bws.), Cyngor Gwynedd (e.e. y gorwariant o £4.5 miliwn ar wasanaethau cymdeithasol ac elw

harbwr Pwllheli'n gostwng o £800mil i £250mil dros gyfnod) a Chyngor Bethesda (e.e. doedd dim clwb ieuenctid cyn Y Nadolig oherwydd anhawster recriwtio arweinwyr a chodwyd coeden Nadolig o flaen y Gorffwysfan).

Penderfynwyd newid noson y cyfarfod nesaf i Fawrth y 24ain a chynnal cyfarfodydd deufisol wedyn ar y drydedd Nos Fawrth am 7:30 y.h. yng Nghanolfan Cefnfaes, gyda phwnc trafod yn yr ail hanner.

Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon (e.e. i wrando ara araith am gynrychiolaeth gyfrannol) a chyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru (e.e. i wrando ar araith gan Mark Tami, aelod Senedd Prydain dros Alyn a Glannau Dyfrdwy), gyda digon o gyfle i holi a mynegi barn yn y ddau gyfarfod.

Clwb Criced a Bowlïo

Bydd y tymhorau Criced a Bowlïo'n ail-ddechrau eto ym mis Ebrill, gyda rhestr y gemau ar gyfer y tymor newydd eu cyhoeddi.

Bydd y tîm 1af Criced yn dechrau eu tymor gartref yn erbyn Abergele ar Ebril 18^{fed}. Jonathan Williams fydd Capten y tîm eto eleni. Mae Capten newydd i'r 2ail dîm, sef Jez Shea, a bydd yr 2ail dîm yn dechrau'r tymor i ffwrdd yn Llandudno ar Ebril 25^{ain}. Tomos Jones fydd capten y tîm Canol Wythnos ar gyfer tymor 2020, gyda'r gemau eto i'w cadarnhau.

Mae'r clwb yn rhedeg tîmau criced leuenctid yn ogystal, gydag ymarfer yn dechrau o 6 oed i fyny at 16, gyda'r tîmau dan 11, dan 13 a dan 15 yn chwarae gemau cystadleuol yn erbyn clybiau eraill. Bydd sesiynau ymarferion y tîmau leuenctid hefyd yn dechrau fis Ebrill.

Bydd ymarferion i dîm criced Merched y clwb yn ail-ddechrau ddiwedd Ebrill, gyda'r tîm yn chwarae rhai gemau pêl feddal a rhai pêl galed yn ystod y tymor.

Bydd pedwar tîm Bowlïo unwaith eto yn y clwb tymor yma, gyda'r tîm dydd Sadwrn yn chwarae yng nghyngair Arfordir Gogledd Cymru, gyda'r gem gyntaf i ffwrdd yn Llandudno ar y 4^{ydd} o Ebrill. Bydd tîmau hefyd yn chwarae ar nos Lun (Capten – Callum Sorfleet), prynhawn dydd Mawrth (Capten – Maldwyn Pritchard) a nos Fercher (Capten – Brynmor Jones).

Mae sawl cyfle felly i fod yn rhan o'r clwb, unai fel chwaraewr Criced / Bowlïo neu yr opsiynau gwrifoddoli amrywiol sydd ar gael. Mae croeso i wynebau newydd bob amser.



Am ragor o wybodaeth dilynwch y clwb drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol (Facebook neu Twitter). Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb fel chwaraewr neu wirfoddolwr gallwch gysylltu gyda'r clwb drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy e-bostio cricedbethesdacricket@outlook.com